

ECO'R WYDDFA

CANMLWYDDIANT YSGOL BRYNREFAIL

Bydd dathliadau canmlwyddiant yr Ysgol yn cael eu cynnal ym mis **MEDI** eleni, ac nid ym mis Mai fel y nodwyd yn rhifyn diwethaf yr Eco.
Ymddiheurwn am y camgymeriad.

Rhif 267

MAI 2000

Pris 40c

Gorfoleddu ym Methel



Rhai o aelodau Adran Bentref Bethel o'r Urdd yn gorfoleddu ar ôl ennill y darian am yr adran bentref efo'r mwyaf o farciau yn Eisteddfod Rhanbarthol Eryri. Ceir yr hanes a mwy o luniau yn newyddion Bethel ar dudalen 10.

Dathlu Diwrnod y Llyfr



Rhai o blant ysgolion Cwm-y-glo a Bethel ar y daith drenau gyda'r awdur Emily Huws.

Roedd Mawrth 10, 2000 yn Ddiwrnod y Llyfr ac yn ddiwrnod o ddigwyddiadau ar draws y wlad. Mae'n siŵr fod nifer o drigolion ardal yr Eco wedi cael cyfle i ymuno â rhai o'r gweithgareddau ond i rai o ddisgyblion ysgolion y fro fe fu yn ddiwrnod go arbennig. Roedd Cyngor Llyfrau Cymru wedi trefnu i logi trên bach y llyn a chafodd y plant deithio arni yng nghwmni rhai o awduron llyfrau plant mwyaf poblogaidd Cymru.

Un o'r awduron oedd Emily Huws o Gaeathro, ac fe gafodd y plant amser diddorol tu hwnt yn ei chwmmi yn cael cefndir rhai o'r llyfrau a chael sgwrsio am rai o'r cymeriadau.

Trefnwyd y gweithgareddau gan Nesta Ellis ar ran y Cyngor Llyfrau ac roedd y plant a'u hathrawon yn hynod ddolchgar iddi.

Llwyddiant i Redwyr y Fro

Mae'r tymor rasio mynyddoedd wedi ail-ddechrau o ddifrif erbyn hyn a dwy ras bencampwriaeth eisoes wedi eu cynnal. Teithiodd criw bychan o'r fro i Fannau Brycheiniog yn gynharach yn y mis i gystadlu yn ras gyntaf pencampwriaeth Cymru — Ras Pen y Fan, pedair milltir o ddringo a disgyn caled. Ei chael yn ddiwrnod poeth (wir yr!) er gwaethaf y rhybudd gan drefnydd y ras i osgoi'r eira yn y cysgodion gan ei fod yn bedair troedfedd o drwch mewn manau. Daeth Jayne Lloyd o Gaeathro yn drydydd yn ras y merched, cwta ddau funud ar ôl yr enillydd a oedd yn gynbencampwraig Prydain.

Y Sadwrn dilynol roedd taith i'r Alban yn wynebu rhedwyr Eryri, gyda ras gyntaf pencampwriaeth Prydain yn Clachnaben ger Strachan. Unwaith eto, daeth llwyddiant i'r fro, gyda Colin Donnelly o Ddinorwig yn ennill y ras i ddynion dros 40 oed, ac yn gorffen yn ddeunawfed yn y ras. Mae siawns dda gan Colin i ennill yr adran i ddynion dros 40 oed eleni, ac ychwanegu at y rhestr hir o fuddugoliaethau sydd ganddo ym mhencampwriaethau Cymru, Prydain a thu hwnt.

Mae'r Gynghrair Rhedeg Nos Fawrth yn parhau'n boblogaidd a bron i gant o redwyr gwahanol wedi cymryd rhan yn y tair ras gyntaf, sef Foel Lus, Penmaen-mawr, Moel y Gest a Mynydd Mawr. Un sy'n mwynhau'r rasmus hyn yw Gwyn Williams o Lanberis, sy'n cael cystadlu yn erbyn oedolion yn y Gynghrair — ac yn llwyddo'n arbennig o dda hefyd. Mae wedi gorffen yn y deg uchaf ym mhob un o'r rasmus hyd yn hyn, ac wedi curo sawl rhedwr profiadol. Yn sicr, mae dyfodol disglair yn ci wnebu.

Ar ddydd Sadwrn, y chweched o Fai, disgwylir nifer helaeth o redwyr mynydd i Lanberis pan gynhelir Ras Moel Eilio. Mae hon yn hen ffefryn gan lawer o redwyr ond, eleni disgwylir mwy nag arfer oherwydd fod y ras yn ymgorffori pencampwriaeth rhyng-sirol Prydain, yn ogystal a bod yn rhan o bencampwriaeth unigol Cymru.

ECO'R WYDDFA

Rhif 267
MAI 2000

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Ann Cumberton,
Gwastadnant (870356)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MEHEFIN 1

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, MAI 22

Os gwelwch yn dda,

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu A
MEHEFIN GORFFENNAF AWST	MAI 22 MEHEFIN 19	MEHEFIN 1 MEHEFIN 29	BRYNREFAIL BETHEL	Dilys Wyn Morris Mr Geraint Elis
MEDI HYDREF	AWST 28 MEDI 18	MEDI 7 MEDI 28	DINORWIG PENISARWAUN	Miss Marian Jones Mrs Ann Evans
TACHWEDD RHAGFYR	HYDREF 16 TACHWEDD 20	HYDREF 26 TACHWEDD 30	LLANBERIS CAEATHRO	Mr Gwilym Evans Mr Clive James

Llythyr

PRYDAIN YN ARAF YN HELPU ETHIOPIA

Annwyl Ddarllenwyr,

Mae Ethiopia yn wynebu newyn unwaith eto. Mae pedwar plentyn ar ddeg yn marw bob dydd ar hyn o bryd oherwydd y newyn, ac mae'r sefyllfa yn gwaethgu. Mae bywydau 16 miliwn o bobl yn y rhan hon o Affrica mewn perygl.

Mae llywodraeth Ethiopia eisoes wedi rhybuddio'r 'Gorllewin' am yr argyfwng, ond araf deg mae'r ymateb wedi bod hyd yn hyn. Dim ond oddeutu 7% o'r bwyd y mae'r Gorllewin wedi'i addo i Ethiopia sydd wedi cyrraedd hyd yn hyn. Yn ôl 'Rhaglen Bwyd y Byd' mae angen un miliwn tonnall o fwyd i ddiwallu'r angen.

Mae llywodraeth Ethiopia yn dweud mai dim ond ar ôl gweld y lluniau brawychus ar y teledu mae'r cymorth yn dod ac yn cwyno bod Prydain yn araf yn helpu. Mae'n rhaid ymateb ar fyrder. Oni bai am y cymorth a dderbyniodd Ethiopia yn ôl yn 1984/85, byddai'r dioddefaint ar y pryd ac ers hynny wedi bod yn waeth o lawer.

Cawsom y fraint o deithio i Ethiopia ddwy flynedd yn ôl i ymweld â phrosiectau Cymorth Cristnogol. Roedd pryderon y pryd hynny am y cynhaef nesaf a'r glaw annibynadwy, ond hefyd roedd ymdeimlad o obaith wedi rhai blynyddoedd o gynaeafau da ac roedd edrych ymlaen at ddyfodol gwell. Ers hynny, mae'r glaw wedi methu. Ethiopia yw un o wledydd tlotaf y byd: 'Rydym uwchlaw'r meirw ond islaw'r byw', meddai un gŵr wrthym. Gwelsom gymunedau cyfan yn byw mewn tlodi affwysol, a newyn a thrychineb yn fygythiad cyson. Ond gwelsom hefyd gymunedau yn cydweithio o fewn eu gallu i wella eu sefyllfa, cymunedau yn cydweithio yn effeithiol, yn gweithio yn ddiflino ar raglenni amaethyddol ac amgylcheddol, yn plannu coed, yn terasu'r tir, yn adciladu — gyda'u dwylo lle nad oedd peiriannau — argacau pridd enfawr. Mae'r sychder

eleni wedi tanseilio llawer o'r ymdrechion hyn. Rydym yn deall fod bron i boblogaeth gyfan un gymuned y buom yn ymweld â hi eisoes wedi mudo oherwydd yr argyfwng presennol.

Mae tystiolaeth bellach fod yr hinsawdd eithafol hon yn deillio o'r cynhesu byd-eang, ac mae hynny'n golygu fod gwledydd y gorllewin yn rhyddhau lefelau llawer iawn rhy uchel o CO2 i'r awyr. Yn ogystal, mae dyledion Ethiopia i'r gwledydd cyfoethog yn ei llyffetheirio; mae'r llywodraeth yn gwario mwy ar ad-dalu'r ddyled nag ar ei gwasanaeth iechyd. Rhaid inni yma yn y gorllewin ymateb yn ariannol ac yn wleidyddol yn ddiymdroi.

Gallwch gyfrannu drwy ddanfôn arian at y cyfeiriadau isod a thrwy ysgrifennu at aelodau'r Cynulliad ac at aelodau Seneddol yn gofyn iddynt bwyso ar yr Adran Ddatblygiad Rhyngwladol i gynyddu'r cymorth dyngarol a gofyn am ddileu dyledion Ethiopia.

Yr eiddoch yn gywir,

Dafydd Iwan
a Judith Humphreys
Cymorth Cristnogol
Blwch 21
CAERDYDD CF14 2DL

Annwyl ddarllenwyr,
Mae opera sebon Radio Cymru 'Eileen' newydd ddathlu blwyddyn o ddarlledu a phentref Rhydeglwys yn tyfu mewn maint wrth i'r gweithwyr gychwyn adeiladu stad newydd o dai. Stad newydd a fydd yn golygu nifer o drigolion newydd o bob oed, o bob rhan o Gymru.

Oes gennych chi ddiddordeb mewn actio? Os oes, pam na yrrwch chi gaset ohonoch eich hun, a'ch 'c.v.' yma i ni yn swyddfa 'Eileen', ac efallai y byddwch chi yn un o gymdogaion newydd Eileen a Sioned, ei merch.

Cofiwch fod 'Eileen' yn cael ei darlledu ddwywaith y dydd - am 12.50 y prynhawn a 6.02 yr hwy.

Anfonwch eich caset a'ch 'c.v.' at Nerys Jones, Swyddfa Eileen, Radio Cymru, BBC Bryn Meirion, Bangor, Gwynedd, LL57 2BY.

6 Ffordd Haeearn Bach

Pen-y-groes.

Mawrth 2000

Annwyl Gyfaill,

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi lansio ymgyrch dros Ddeddf Iaith i'r ganrif newydd, ac ar hyn o bryd yn pwyso ar gwmnïau ffôn symudol i gydnabod y Gymraeg. Wedi rali ger mast ffôn ym Mlaenau Ffestiniog ddechrau'r flwyddyn, yr ydym am gynnal rali yn Llandudno, ddydd Sadwrn, Mai 13. Os carech ymuno â ni, byddwn yn cyfarfod am hanner dydd dros y ffordd i'r Swyddfa Bost yn y dref. Dewch gyda ni i ddwyn pwysau ar y cwmnïau hyn i gydnabod y Gymraeg.

I'r rhai ohonoch na all ddod i Landudno, gallech leisio eich cŵyn i'r corff sy'n gyfrifol am y gwasanaeth ffôn. Ffoniwch Offtel ar 029 2037 4028 a dywedwch eich bod chwithau hefyd am weld gwasanaeth Cymraeg trwyadl gan bob cwmni ffôn.

Yn gywir
Angharad Tomos

GWERSI PIANO

OEDOLION/PLANT

CYSYLLTWCH Â
MAIR HUMPHREYS AR:
(01286) 674339

SPAR

Y STORFA
LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

Roedd y rhifyn hwn o'r Eco yn cael ei gynhyrchu dros wyliau'r Pasg. O'r herwydd roedd yn cael ei osod ychydig yn gynt na'r arferol. Ymddiheurwn os y bu'n rhaid gadael ambell i stori allan — fe wnawn bob ymdrech i'w cynnwys yn y rhifyn nesaf.

Erfyniad Pêl-droed ASE

Mae Eurig Wyn ASE Plaid Cymru wedi lansio apêl i ddarganfod maes chwarae pêl-droed ar gyfer yr ifanc yn Waunfawr.

Mae Mr Wyn yn gofyn i unrhyw un yn ardal Waunfawr sy'n barod i gynnig cae addas ar gyfer pobl ifanc yr ardal i gysylltu ag o.

Mae Eurig Wyn yn byw yn y pentref ac ef yw llywydd anrhydeddus y tîm pêl-droed ieuenctid. Mae'n gobeithio eu gweld yn parhau gyda'u cynnydd ardderchog sydd, ar hyn o bryd, yn cael ei atal oherwydd colled eu maes chwarae presenol. Dywedodd:

'Cychwynais dîm pêl-droed ieuenctid yma pan symudais i'r ardal ugain mlynedd yn ôl ac rwyf wirioneddol eisiau gweld y bobl ifanc yma yn cael y cyfle i barhau gyda'u llwyddiant.'

'Rwy'n gobeithio y daw rhywun yn yr ardal ymlaen a chynnig defnydd o gae addas, a gofynnaf iddynt gysylltu â mi ar (01286) 650512 neu fy ysgrifenyddes ar (01492) 871700.'

'Mae llawer o drafod wedi bod yn Strasbourg yr wythnos hon ynglŷn â'r angen am brif dimau pêl-droed, ond ar y lefel gymunedol hon y mae chwaraeon mor bwysig.'

Atgyweirio'r Olwyn Ddŵr fwyaf ar dir mawr Prydain

Bu'r olwyn ddŵr enfawr yn Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis yn segur ers yr ail o Chwefror i ganiatáu gwaith cynnal a chadw.

Bob Banks o gwmni Dorothea Restoration o Stockport sy'n gyfrifol am y gwaith pwysig o adfer yr olwyn i'w gogoniant gwreiddiol. Rhaid datgymalu rhannau o'r olwyn, pob adain, pob pwead, pob plât i'w trwsio, cyn ei paentio a'u hailosod. Amharwyd ar y gwaith gan dywydd gwlawog, ond gobeithir cwblhau'r orchest erbyn diwedd Mai, pryd y dechreu'r ar drwsio ac adfer y tanc dŵr sy'n bwydo'r olwyn fawr.

Y mae'n bosibl ymweld â'r olwyn fawreddog hon yng nghofnod y Pasg hyd at Galan Mai (Ebrill 21 - Mai 2) ac er na fydd yn weithredol, cewch dafu golwg ar yr atgyweirio hyd yn hyn.

Am ragor o wybodaeth

cysylltwch â Guto-Wynn Hughes ar (01286) 870630 neu Ffacs: (01286) 871906 neu e-bost: wsmpost@btconnect.com

Mudiad Ffermwyr Ifanc yn Croesawu Ewrop

Fe fydd Mudiad Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru yn croesawu ieuenctid o bedwar ban Ewrop i Gymru yn Awst eleni ar gyfer Rali Ewropeaidd 2000.

Mae'r Rali ar gyfer pobl ifanc rhwng 18 a 26 oed sy'n gysylltiedig ag un o'r 24 o fudiadau sy'n aelodau cyswllt o'r Ffermwyr Ifanc Ewropeaidd. Bydd 150 o ymwelwyr o 19 gwlad Ewropeaidd yn ymwneud â'r digwyddiad. Cynhelir y Rali yng Nghanolfan Conway, Llanfairpwll, Ynys Môn yn ystod wythnos 12-19 Awst 2000. Bydd yr ymwelwyr yn ymweld â nifer fawr o leoliadau yng Nghymru ac yn aros, am ran o'r wythnos, gyda theuluoedd aelodau C.F.F.I. Cymru.

'Fel prif fudiad ieuenctid Cefn Gwlad Cymru, byddwn yn darparu llwyfan i hyrwyddo a marchnata cynnyrch Cymreig, ac hefyd yn codi proffil y mudiad ar draws Cymru ac Ewrop. Trwy hyn byddwn hefyd yn hybu delwedd Cymru i ymwelwyr o'r newydd fydd, o bosib, yn ail ymweld yn y dyfodol gyda'u teuluoedd a'u cyfeillion,' ychwanegodd.

Yn ddigwyddiad blynyddol, mae'r Rali yn cael ei chynnal gan un o aelod wledydd Pwyllgor Ewropeaidd y Ffermwyr Ifanc a Chybiau 4H. Gydag aelodaeth gyswllt gyda'r Pwyllgor, llwyddodd Cymru i gael y frainc o gynnal y Rali yn y flwyddyn 2000 mor bell yn ôl â 1992.

Mae Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru yn fudiad ieuenctid gwirfoddol gyda 6,000 o aelodau a 180 o glybiau.

Pôs y Llwybrau Pasg

Roedd cyfle i blant a phobl ieuanc gymryd rhan eleni ym mhôs y 'Llwybr Llechi' yn Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis. Cawsant grwydro o gwmpas y safle, gan ddysgu am hanes y diwydiant llechi yn ogystal â chael gwobr fechan wrth gwblhau y pês.

Roedd cyfle hefyd i grwydro ar hyd y 'Llwybr Rhufeinig' sy'n troelli trwy olion y gaer Rufeinig yn Amgueddfa Rufeinig Segontium, Caernarfon.

Ffair Basg Cylch Meithrin Bethel

(Ceir yr hanes a mwy o luniau o dan newyddion Bethel ar dudalen 10)



Ceri Nia Lewis, y 'Cyw Pasg'.



Jac y Jwc yn diddori'r gynulleidfa.



Rhai o'r gynulleidfa niferus yn y Ffair Basg.

antur padarn

Cynhelir

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
ANTUR PADARN CYFYNGEDIG
 yn y Ganolfan Gymunedol, Penisarwaun
 am 7 o'r gloch nos Iau, Mai 18, 2000
 Croeso cynnes i'r holl aelodau

CHWILOTA

Ymateb Darllenwyr



Aeth y mis diwethaf heibio fel y gwynt, a minnau heb gael cyfle i chwiloata am ddim newydd ynglŷn â hanes y fro. Ond diolch i'r darllenwyr, bu digon o ymateb, felly bodlonaf y mis hwn ar bytiau a adroddwyd i mi ar y stryd, a draddodwyd dros y ffôn neu a ddaeth mewn llythyron.

Eisteddfod Lewis's Lerpwl

Oedd, roedd ysgrifennydd yr eisteddfod yn frodor o Fethel! Daeth cadarnhad gan Selwyn Griffith. Er mai cyfeiriad ym Mangor oedd gan W.C. Thomas pan oedd yn ysgrifennydd Steddfod Lewis's, deuai'n wreiddiol o Bryn Hyfryd, Bethel a bu'n drefnydd Eisteddfod y Plant yn y pentref hwnnw hefyd. Yn wir, mae'n ymddangos y gallai fod wedi gwneud bywoliaeth fel trefnydd gwahanol eisteddfodau, gan mor drwyadl oedd ei waith. Roedd yn ffrindiau â Cynan, ac fe'i derbyniwyd i'r Orsedd fel Gwilym Bethel. Fo hefyd oedd trefnydd / ysgrifennydd yr Wyl Gerdd Dant gyntaf erioed — a gynhaliwyd yn Y Felinheli, wrth gwrs.

Mae'n ymddangos fod nifer helaeth o'r ardal hon yn teithio i Lerpwl i gystadlu yn Steddfod Lewis's. Cefais wybodaeth hefyd

am Gôr Plant Llanrug a fu'n cystadlu yno tua 1929. Mae'r cwpan a enillwyd gan y côr hwnnw yn parhau ym meddiant Ysgol Gynradd Llanrug. Ymddangosodd llun o'r côr hwnnw yn yr 'Eco' rai blynyddoedd yn ôl bellach.

Digon posibl fod y llun o'r côr buddugol y soniwyd amdano y mis diwethaf wedi ymddangos yn yr Eco hefyd, ond fe'i cynhwysir eto'r mis hwn. Tybed a oes rhywrai o'r darllenwyr all enwi aelodau o'r côr?

Gan Alwyn Jones, Racca y daeth gwybodaeth am rai o feirdd cadeiriog Lewis's. Tybiai mai Rolant o Fôn oedd enillydd y gadair gyntaf a gynigiwyd gan yr Eisteddfod, ac mai T.D. Roberts o Langefni oedd enillydd un arall o'r cadeiriau cynnar — rhywbryd tua 30'au'r ganrif ddiwethaf.

Byddai mwy o atgofion (a

lluniau) am unigolion, partïon a chorau o'r fro yn cystadlu mewn rhai o eisteddfodau Lewis's yn ddiddorol. Anfonwch wybodaeth, yn enwedig am y dull o deithio yno — a sut y byddid yn casglu digon o arian i dalu am y costau teithio.

Madam Gayney Griffiths

Cafwyd ymholiad ynglŷn â'r gantores hon rai rhifynnau yn ôl, ac er fod peth o'i hanes wedi ymddangos yn yr Eco flynyddoedd yn ôl bellach, cafwyd mwy o wybodaeth amdani trwy law Noel Williams, Llanrug. Mae'n adrodd fel yr oedd chwaer a brawd-yng-nghyfraith Gayney yn byw yn Lerpwl, ac yn aelodau yn eglwys Bethlehem, Douglas Road. Yn 1920 roedd Gayney yn dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed ac yn aros yn Lerpwl ar y pryd.

Mae ym meddiant Noel Williams doriad papur newydd — (allan o 'Y Cymro' o bosibl) — sy'n sôn amdani: 'ys gwn i pa sawl un sy'n cofio'r gantores enwog hon pan yn anterth ei nerth fel cantores? Un o blant Llanberis ydyw Madame Griffiths, a gyda llaw, y fath nifer o gantorion a godwyd yn Llanberis a Nantlle ... mae enw Madame Gayney Griffiths ar ben y rhestr. Gwelais gyfrif o hanes bywyd yr enwog Dr Joseph Parry, ac yn y rhestr o'i ddisgyblion mae Gayney Griffiths ... Bu hi yn camu ar yr un llwyfan ag enwogion y byd cerdd, ac yn eu plith, Ben Davies, Madame Mary Davies, Lucas Williams, Eos Morlais a James Savage.'

Roedd Alafon (a fu'n weinidog yn y fro am flynyddoedd) mewn un o gyngherddau Gayney Griffiths yn Amlwch un tro, ac ysgrifennodd englyn byr-fyfr ar yr achlysur:

Gayney deg, dy ganu di -
yn Amlwch

I'nheimlad sy'n ddigri;
Gwefr enaid a gyfrenni,
A rhes iâs i fy nhraed i!

Yn ôl Noel Williams, mae rhai o ddisgynyddion teulu Gayney Griffiths yn parhau i fyw yn y fro.

Diddorol eto yw'r cysylltiad â Lerpwl. Tybed faint o'r darllenwyr fyddai'n gefnogol i

syniad Cyngor Dinas Lerpwl o wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol yno ymhen rhai blynyddoedd?

Gwybodaeth am Evan Parry Jones

Daeth cais i law o Flaenau Ffestiniog yn holi am y gŵr hwn a anwyd yn Llanberis yn 1838, ac a aeth i weithio i Chwarel Dinorwig yn ddeuddeg oed. Oddi yno cafodd fynediad i Ysgol Eben Fardd yng Nghlynnog, a pharhau gyda'i addysg mewn Coleg yn Llundain, ble bu'n astudio dulliau mwynloddio. Yno, cyfarfu â Syr Hugh Owen, a'i perswadiodd i roi cynnig am swydd fel rheolwr chwarel ym Mlaenau Ffestiniog. Yno y treuliodd weddill ei fywyd, a bu farw yno yn 1905.

Ysgol Brynrefail yn dathlu'r cant

Fel yr adroddwyd yn y rhifyn diwethaf, mae trefniadau ar y gweill i ddathlu pen-blwydd Ysgol Brynrefail. Trefnir arddangosfa ar y dydd Sadwrn cyntaf o'r dathlu, ac er fod llawer o luniau eisoes ym meddiant yr ysgol, y gobaith yw casglu mwy o luniau a chreiriau yn ymwneud â bywyd yr ysgol dros y ganrif ddiwethaf.

Tybed a oes rhai o'r darllenwyr â hen lyfrau, hen adroddiadau neu greiriau tebyg o'u cyfnod yn yr ysgol, ac yn fodlon eu benthycu am y diwrnod? Diddorol hefyd fyddai gweld gwisgoedd cynnar yr ysgol. Oes rhywun wedi cadw hen 'blazer' neu gap neu fathodyn, neu dei hyd yn oed? A beth am y bagiau 'pumps' bondigrybwyll? Roedd yn rheidrydd ar bawb eu cael ym mlynnyddoedd cynnar yr ysgol newydd.

Byddai'r pwyllgor yn ddiolchgar o dderbyn unrhyw beth sy'n dangos nodwedd o fywyd ysgol ar gyfnod arbennig dros y can mlynedd diwethaf.

Ymholiad neu wybodaeth am agwedd o hanes lleol — cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).



Côr Eisteddfod Lewis's 1948.

(Llun trwy garedigrwydd Mr Williams, 13 Deimol Road, Deiniolen)

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

Perchnogion: DANNY A NERYS ROBERTS

GINIO SUL Y MAMAU
EBRILL 2: £13.50

A HEFYD
COFIWCH AM EIN
BeliBistro
Ffoniwch am fanylion

Cofiwch am nosweithiau arbennig Y BISTRO
nos Wener olaf pob mis



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI

CELTIC WINDOWS



Sefydlwyd
1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



Un funud fach ...

SILVERSTONE

Tybed oes yna fersiwn Seisnig o Sulwyn a'i Stondin yng nghyffiniau Silverstone? Fyddai'r holl sôn a gafwyd am draffig a thywydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn ddim o'i gymharu â'r cwyno am y Grand Prix yr wythnos hon. Dyna beth yw mwd. Meysydd parcio dan ddŵr. Ceir a charafanau a cherbydau 4x4 yn sownd mewn mwd dwfn. Pymtheg milltir o dagfeydd traffig. Dim ond y cyfoethogion yn eu hofrenyddion yn cael dod i'r rhagbrofion. Digon o ddeunydd trafod i'r Stondin am fis cyfan!

Yr Albanwr David Coulthard enillodd y ras. Ond welsoch chi hwnnw yn y rhagbrofion? Llithrodd oddi ar y trac rasio i'r gwair gwlyb. Bu raid cael Land Rover i lusgo'i gar oddi yno. Ond aeth y Land Rover yn sownd yn y mwd! A bu raid cael cerbyd arbennig i lusgo hwnnw a char Mr Coulthard nôl i'r lan.

Y Salmydd sy'n dweud, 'Cododd fi i fyny o'r pwll lleidiog, allan o'r mwd a'r baw; gosododd fy nhraed ar graig, a gwneud fy nghanau'n ddiogel.' Yn ei drybini roedd wedi disgwyl a disgwyl wrth yr Arglwydd, ac yna plygodd ataf a gwrando fy nghri.'

Gallwn ninnau lithro i'r mwd a'r baw: trafferthion a wnaethom i ni ein hunain; problemau na fedrwn wneud dim amdanynt; beiau sy'n drysu ein bywydau; pechodau sy'n difetha ein perthynas â Duw. Fedrwn ni ddim dod o'r baw. Ddim mwy nag y gallai David Coulthard yrru'r McLaren o'r mwd. Mae'r problemau yn rhy ddyrys i ni eu datrys, a'r euogrwydd yn rhy fawr i ni ei ddileu. A gallwn deimlo nad oes neb yn medru ein helpu. Ddim mwy nag y llwyddodd y Land Rover i helpu Coulthard. Fedr ffrindiau ddim dileu'r poenau. Fedr crefydd ddim symud yr euogrwydd.

Iesu Grist yn unig sy'n gallu ein tynnu i'r lan. Mae'n llwyddo lle methwn ni. Ildiwn iddo a gadael iddo ein codi a'n gosod ar dir cadarn yn y byd hwn a'r byd a ddaw. JOHN PRITCHARD

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YSGOL CWM-Y-GLO. Rydym yn croesawu tri phlentyn newydd i'r ysgol, sef Karon Williams o Fangor a Thomas a Daniel o Bournemouth. Maent wedi setlo'n dda bellach yn eu dosbarthiadau.

Daeth nifer o ymwelwyr i'r ysgol. Un ohonynt oedd Catherine Aran a fu'n cymryd rhan y Cyfarwydd yn y llysoedd a bu'n adrodd straeon hynod ddiddorol i blant yr Adran lau.

Yna daeth Sue Gibson atom i gyflwyno i ni weithgareddau Cymdeithas Dr. Barnado. Yn dilyn ei hymweliad, cafodd y plant gyfle i gasglu ac i gymryd rhan mewn cystadleuaeth. Y tri buddugol am beintio wyau oedd Katie Pritchard, Cari Brymer Jones a Karon Williams. Tynnwyd raffl o'r amlenni casglu ac enillwyd y gwenynod gan Rebecca Williams ac Alwyn Day. Rydym yn hynod falch ein bod wedi casglu a throsglwyddo £134 i'r mudiad. Carem ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd i'r achos teilwng hwn.

Treuliodd Bl. 6 ddiwrnod yn ysgol Brynrefail i brofi rhagflas o fywyd yno. Diolch i'r prifathro am y croeso ac i Mrs Bebb am wneud y trefniadau.

Ar Ddiwrnod y Llyfr aeth plant Bl. 6 i gyfarfod yr awdures Emily Huws i Lanberis. Cawsant rannu cerbyd trên gyda phlant Bethel a chael taith hyd lannau'r llyn. Yn ystod y daith buont yn holi a sgwrsio gydag Emily Huws am ei llyfrau ac am yr hyn fydd yn dod o'r wasg yn y dyfodol agos - gobeithio!

Daeth Mr Jim Andrews (sy'n enedigol o Loegr) at Bl. 3a4 i gyflwyno ei brofiadau am yr amser y bu'n byw yn Lesotho, Affrica am bedair blynedd Cymaint oedd ei hoffter o'r wlad a'i phobl fe aeth ati i ddysgu'r iaith Sesothu nes y daeth yn rhugl ynddi. Pan ddaeth i Fethesda i fyw dechreuodd ddysgu Cymraeg ac mae bellach yn rhugl mewn pump o ieithoedd. Pam tybed fod ambell un yn cael trafferth i feistrolu dwy iaith?

Ymwelydd arall oedd yr awdur a'r arlunydd Shoo Rayner. Cyflwynodd yntau orig ddiddorol iawn i'r Adran lau ac roedd y plant wedi rhyfeddu mwy bron at ei ddawn arlunio na'i straeon. Roedd

yn debyg iawn i Rolph Harries yn gwneud y lluniau ar yn byrlymu siarad drwy'r cyfan.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis Mawrth oedd Mrs Enid Price, Cwm-y-glo a Mrs Anita Long, Brynrefail. Ym mis Ebrill aeth y gwobrau i Dr Esyllt Llwyd, Llanrug a Mr Gwilym Williams, Cwm-y-glo.

Treuliodd Adran y Babanod ddiwrnod yng Nghastell Penrhyn yn cael blas ar y gorffennol. Mwynhawyd y diwrnod yn fawr ond fe ddywedodd ambell un fod yn well ganddo'r presennol a'r holl adnoddau modern sydd gennym.

Er gwaethaf y tywydd anffafriol ddiwedd y tymor, cynhaliwyd noson lwyddiannus o Helfa Wyau o gwmpas cae y pentref a'r parc bach. Cynhaliwyd cystadlaethau cyn y noson a daeth Marina a Ray o westy'r Fricsan i feirniadau'r cardiau Pasg, yr hetiau a'r wyau addurniedig. Trefnwyd y cyfan gan Bwyllgor y Gymdeithas Rhieni/Athrawon. Diolch yn arbennig y tro hwn i Mrs Heather Jones am gasglu'r holl wyau wedi berwi ac i Mrs Sian Jones am ei helpu i guddio rhain.

YR URDD. Mae cyfnod prysur wedi dod i ben ac mae'r cyfarfodydd wedi gorffen am eleni. Daeth llwyddiant i'r plant yn yr Eisteddfod Cylch gyda'r Parti Dawnsio Gwerin dan 10 oed a'r Côr yn ennill. Diolch i'r nifer o unigolion ar Parti Llefaru am gymryd rhan er na ddaeth llwyddiant y tro hwn. Dim ond y dawnsiwr aeth i'r Eisteddfod Sir ac fe ddaethant yn drydydd yno.

Yn yr Adran Celf a Chrefft daeth 17 o wobrau i'r adran eleni yng nghylch Arfon. O'r rhain cafodd 7 eu gwobrwyo yn Sir Eryri ac felly yn cael eu hanfon ymlaen i'r Genedlaethol. Gobeithiwn rwan y bydd rhai o'r rhain yn llwyddiannus eto ac y daw ambell i fedal eleni eto i Gwm-y-glo.

I gloi'r tymor aeth naw o blant Bl. 5 a 6 i Wersyll yr Urdd Glanllyn. Diolch i Mrs Jen Roberts am edrych ar ôl y plant. Cafodd pawb amser da a'r tro hwn roedd y tywydd yn ffafriol iawn i'r gweithgareddau.

DIOLCH yn fawr iawn i blant Ysgol Cwm-y-glo ac Ysgol Brynrefail a

ddaeth gyda Anti Margaret ac Anti Sioned i blygu rhifyn Ebrill o'r Eco. LLONGYFARCHIADAU i Miss Megan Davies, Craig-y-don ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

CAPEL Y TABERNACL. Cynhaliwyd Cymanfa Annibynwyr Dosbarth Cwm-y-glo eleni yng Nghapel Jerusalem, Llanberis.

PEIDIWCH A GORI AR STORI

anfonwch hi i
Eco'r Wyddfa

Wavell Roberts CIGYDD London House LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

antur WAUNFAWR

GWYL FAI - 2000 Maí 1af
Llun Gwyl Banc 2.00 - 5.00 y pnawn

Agor caffi newydd Blas y Waun
diwrnod o hwyl i'r teulu i gyd

gweithgareddau amgylcheddol,
adloniant, stondinnau a llawer mwy



01286 650 721 www.anturwaunfawr.org



CARPEDI GERAIN T OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes
a physgod.
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

O SIAMBAR SELWYN

Ys gwn i fyddwn ni yn heidio tua Lerpwl i'r Eisteddfod Genedlaethol yn y flwyddyn 2007?

Rydan ni wedi hen arfer mynd yno i siopa ac i gemau pêl-droed, ac yn dal i wneud hynny.

Ond yn yr hen ddyddiau roedd yna filoedd yn mynd i Lerpwl i chwilio am waith. Dynion i weithio ar y dociau a'r merched i weini. Ac fe gafodd yna gannoedd o fyfyrwyr y Normal eu profiad cynta o ddysgu yn ninas Lerpwl. Oedd, roedd Lerpwl yn cael ei chydabod fel prif-ddinas Gogledd Cymru ar un cyfnod, ac fe gynhelid Eisteddfodau llwyddiannus yn Lerpwl ac yn y cyffiniau.

Mae y diweddar J.R. Morris yn ei lyfr 'Atgofion Llyfrwerthwr' yn cyfeirio at eisteddfodau mewn llefydd fel Ashton-in-Makerfield, Prescott, St. Helens, Earlstown, Bolton, Leigh, Warrington a Wigan. Eglwys Cymraeg fel arfer oedd yn gyfrifol am yr eisteddfodau hyn ac yn wir fe gynhelid dwy eisteddfod yn flynyddol yn Ashton. Yr unig bentref yng Nghymru y gwn i amdano lle cynhelir dwy eisteddfod yn flynyddol ydi Trawsfynydd - Steddfod Llaurplwy a Steddfod Stesion.

Fel y cyfeiria J.R. Morris at eisteddfodau Lerpwl a'r cylch: 'cyfarfodydd cystadleuol lleol oeddynt ar y dechrau, gan dyfu i fod yn eisteddfodau, a llawer ohonynt yn eisteddfodau cadeiriol.'

Roedd Eisteddfod y Ddraig Goch a gynhaliwyd yn Lerpwl rhwng 1921 a 1926 yn enwog iawn. Gwahoddwyd beirniaid o fri fel Pedrog, Eifion Wyn, T. Gwynn Jones, Meuryn ac R. Williams Parry i feirniadu'r cystadlaethau braddonol. Ac ymysg yr enwau a fu'n beirniadu rhyddiaith gwelir Tegla, Kate Roberts a Saunders Lewis. Cerdd: Dr Caradog Roberts, Osborne Roberts a Dr Hopkin Evans.

Sylwais ar un testun diddorol yn adran rhyddiaith sef: 'Ymgom rhwng Arthur Frenin a Dewi Sant.' A sylwer ar hyn, 'Cymraeg yn unig oedd iaith yr Eisteddfod. Gwrthodwyd caniatáu i neb feirniadu na thrafod na chystadlu ond yn y Gymraeg, ac roedd hynny cofiwn cyn i'r Eisteddfod Genedlaethol ddilyn yr un llwybrau.'

Eisteddfod enwog arall oedd Eisteddfod y Golomen Wen, Birkenhead. Yn hon yr enillodd y Prifardd Seimon B. Jones (un o fois y Cilie) ei gadair gyntaf. Mae gen innau gof o ennill gwobr am lunio darn adrodd i blant yn un o eisteddfodau'r Golomen Wen. O ia, sawl blwyddyn yn ôl bellach.

Oes, mae 'na hanesion diddorol i hen eisteddfodau Lerpwl a'r cyffiniau.

Bu'r Eisteddfod Genedlaethol yno deirgwaith: 1884, 1900, 1929.

Yn 1929 y daeth Eifion Wyn yn ail am y Gadair (Pedrog a enillodd).

Yn 1929 yr enillodd Caradog Prichard ei drydedd Coron yn olynol, a Dewi Emrys yn ennill y Gadair.

'Dwi wedi cael y cyfle fwy nag unwaith i ymweld â Chymdeithas Gymraeg Lerpwl a Phenbedw, ac wedi cael cynulleidfada deilwng yno bob tro. Oes mae 'na gefnogaeth gry i ddiwylliant Cymreig yn parhau ar Lannau Merswy.

Ys gwn i a ddaw y brifwyl i Lerpwl yn 2007 - mi fydd hyn yn destun trafod yn sicr os ceir cais swyddogol. I gloi ga i awgrymu'r testunau a ganlyn ar gyfer rhai o'r cystadlaethau?

Englyn: Twnel; Telyneg: Afon Mersi; Englyn Digri: Chwilod; Cywydd Moliant: Ian Rush; Baled: Dychweliad y Mimosa neu Ifaciwis, a'r Awdl? - o, ia: Tryweryn.

Ac mi fydd Ken Dodd yn dysgu'r Diddy Men i wneud y ddawns flodau. A fydd heddwch? Cawn weld.

Gwobr Arall i David



Mae gŵr a fagwyd yn Llanberis wedi ennill cystadleuaeth bwysig ym myd ffotograffiaeth broffesiynol. David Pitts yw perchennog 'Solid Gold Photography' yn Radcliffe, Manceinion. Enillodd wobwr 'Ffotograffydd y Mis' y Gymdeithas Ffotograffwyr Priodas a Phortread ('Society of Wedding and Portrait Photography').

Penderfynodd y beirniaid mai un o luniau David oedd y gorau yn y Categori Agored ym mis Ionawr 2000. Dyma'r degfed tro i David gipio un o'r gwobrau hyn y mae ffotograffwyr o bob rhan o Brydain yn ymgeisio amdanynt. Llongyfarchiadau mawr iddo. Mae David yn fab i Mrs Elizabeth Pitts, 53 Dôl Elidir, Llanberis.

DRAENOG

Nid lladron yn unig sy'n stelcian rownd cefna' tai pobol berfeddion nos yn ardal Penisarwaun. Cl'wad am bâr ar gyrion y pentra' yn codi am bedwar o'r gloch y bora i grymowta trw'r binia. Y wraig druan, wedi ca'l hunlla' a chredu'n siŵr fod 'i

chardia banc hi i gyd wedi eu taflu i'r bin — ond dim ond llyfr siec gwag oedd yno yn y diwadd. Yr hyn sy'n syndod ydi fod y ddau ar amsar mor foreol wedi gwisgo cotia nos i fynd allan i'r cefn i fanhandlo'r binia! Wyddwn i ddim fod pobol yn dal i wisgo petha' felly erbyn heddiw! Fel y dywed y Sais: 'I can hardly believe it!'

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partion, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559



Atgofion am Siopau Ardal Llanrug

(parhad o erthygl Robert Williams, Llain Gwta, Llanrug)

Byddai Mrs Lisi Huws bob amser yn brysur yn y siop, yn gwneud ei chwsmeriaid a chadw cyfrif o'r neges yn ei llyfr dyddiol a'r llyfr cownt i'r cwsmer, gan mai talu achlysurol oedd y drefn yn hytrach nag arian parod mewn dyddiau o gynydd. Clywais am un hen wraig ffraeth yn sôn ei bod wedi colli ei llyfr ond pan holwyd hi ai at ei llyfr Emynau y cyfeiriai, 'Naci siŵr, fy llyfr cownt; mi aet allan o diwn efo hwnnw,' oedd ei hateb ffraeth.

Siop a Becws y Bryngwyn fu'n crasu bara i drigolion yr ardal ers dechrau'r ganrif, Siop Dafydd R'Aber y'i gelwid bryd hynny. Bu meibion David Pritchard yn ddisgyblion yn Ysgol Bryneryr o dan Mr T.J. Lloyd yn ôl Cofrestr Derbyn yr ysgol.

Bu'n wag am sbel ar ôl y Rhyfel Cyntaf ac yn gyrchfan i blant i chwarae yn y lloftydd. Yn y dau-ddegau daeth Elis Jones a'i deulu o Ddinorwig yno i'w chadw. Bu'n fusnes llwyddiannus drwy'r dau a'r tri-degau; Betsi yn y becws, Nel yn y siop ar yn ail â Jane Jones (Roberts wedyn) oedd yn wniadwraig greffus hefyd.

Gan fod Ygol Bryneryr mor agos, roedd yn atyniad i ni'r plant ar ein ffordd i'r ysgol gan y byddai da-da yn cael eu harddangos yn y ffenestr. Temtasiwn bryd hynny oedd y llicis-bol a'r lemon cali yn yr haf; Taffi 'Red Seal' (tri am geiniog) llond bwced dun ac 'Uncle Sam's Chewing Nuts'.

Pe byddem yn llwglyd, a cheiniog boeth i'w gwario, byddai blas ar y deisen bwdin yn frith o gyrrys a resins. Byddai'n bleser edrych ar y sgons melyn sgleiniog a'r cacennau eisin.

Bryd hynny byddai hen dramp, Sion Cadi, yn byw ym murddud Tŷ Jerry ym mhen draw lôn bach gefn y Bryngwyn. Ddi i'r siop weithiau i holi am fyns stêl. 'Sgynnoch chi fyns ddoc yma?' 'Oes,' ebe'r siopwraig. 'Faint ydi un?' 'Ceiniog fel arfer!' 'Ga' i hi am ddimai?' Hen gybydd oedd Sion Cadi. Gwisgai dop cot fawr ddu, laes a'i phocedi yn ddwfn; het galed goch-ddu am ei ben, barf flêr a hen sgidiau wedi'u troi heibio gan rywun. Gan ei fod yn gloff, defnyddiai ffon i arbed codwm. Byddem ni'r plant yn gwaredu rhag cael stid pan fyddem yn ei fryfocio. Yn ôl sôn gwlad bu farw yn ddigon cefnog trwy gybyddra.

Yn oes y cyni, rhwng rhyfeloedd, roedd dripin i'w gael yn y siop yn rhesymol, gan y rhostid cig moch yn y becws a'i werthu yn y siop wrth y chwarter pwys. Byddai hwnnw yn gwneud pryd blasus efo'r crystiau fel sgodyn amser te.

Tua'r Nadolig byddai plant yn dyheu am gael gweld y siopau wedi eu haddurno yn lliwgar at y Gwyliau. Dyma pryd y byddai nwyddau y 'Christmas Club' i'w cael ar ôl cynilo dygyn ar gerdyn, fesul ceiniog, i brynu hosan Nadolig o wahanol brisiau. Mawr fyddai'r llawenydd wrth agor yr hosan; er mai trugareddau digon dibwys oedd ynddynt byddai'r disgwyl a'r derbyn yn llonni calon plentyn.

Siop arall yn gysylltiedig â'r ysgol ym Bryneryr oedd honno yng Ngroeslon Marc. Siop fach sinc oedd yno bryd hynny gyda grisyn neu ddau o flaen y drws i gamu i lawr y siop. Siop bapur newydd oedd yn bennaf ond gwerthid da-da a llwer o nwyddau eraill. 'Licenced to sell Tobacco' oedd wrth ben y drws a byddai yn hwylus i ysmygwyr o'r dafarn dros y ffordd. Wrth ddynesu at y cowntar, mewn lle amlwg, oedd pisin deuswllt wedi ei hoelio trwy'i ganol a difyr oedd ei droi fel olwyn efo'r bys. Holais John Parry Jones rywdro, 'Pam sydd eisio hoelio y deuswllt ar y pren?' 'Wel, Bob, arian drwg ydi o, ac mae'n rhybudd i bawb na dderbynnir arian drwg yma.'

O'r siop y byddai Mr Lloyd, y Sgwll, yn cael ei 'Liverpool Post and Mercury' bob dydd a deuai dau gopi arall i'r hen ddesg fawr wrth y drws yn yr ysgol. Cefais i'r swydd o rannu un papur i Siop Pantycoed ar fy ffordd adref i ginio a'r llall braidd allan o'r ffordd i fyny i'r Ardd Gron wrth odre'r Cefn Du i'r Parch Edward Thomas, y pregethwr oedd wedi ymddeol. Roedd y chwechyn a gawn bob wythnos ganddo yn werth ei gynilo at y Dolig.

Prin oedd fy nghysylltiad â Siop Bont ger yr Orsaf ym Mhontrhythallt. Cofiaf fod yno i nôl yr Herald Cymraeg i rywun pan oedd Magi, merch John Jones yn gofalu amdani. Gan ei bod â'i chefn at Afon Seiont (Afon Rhyddallt yma) roedd gryn dipyn o fynd ar gêr pysgota gan John Jones. Gallech brynu leisans sgota yno. Prif atyniad y siop i mi oedd y dyfrgi yn y ffenestr. Fe'i daliwyd rywbyrd gan y perchennog a'i stwffio er

Cyfeillion Ysgol Brynrefail

Ar nos Fawrth, Ebrill 5 cynhaliwyd Ocsiwn Addewidion yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis.

Cafwyd noson hwyliog braf, gyda'r Bon Alwyn Siôn yn dangos ei ddawn fel ocsiwniar medrus. Er mai siomedig oedd y niferoedd o rieni a ddaeth i gefnogi'r noson, gwnaethpwyd elw sylweddol o dros fil o

bunnoedd. Bydd yr arian yma yn mynd tuag at Gronfa Adnewyddu Neuadd yr ysgol.

Ar ran y pwyllgor hoffem ddiolch o galon i bawb a fu'n cynorthwyo i wneud y noson yn un llwyddiannus, a llawer o ddiolch i bob un a gefnogodd. Diolch o galon i chi i gyd.

Pwyllgor Cyfeillion Ysgol Brynrefail



Rhai o'r bidwyr yn yr Ocsiwn.



Alwyn Siôn yr Arwerthwr yn mynd drwy'i bethe!

mwyn ei osod mewn cas gwydr. Ai rhybudd oedd hyn i afradwyr pysgod? Ychydig a wyddem o'i hanes ond mae'r teledu heddiw wedi ein goleuo ar arferion y creadur.

Roedd Siop Eryri wrth droed yr allt ar gwr y Rhos. Cedwid hi gan Miss Annie Hughes oedd yn fodryb i'r Arglwydd Cledwyn Hughes o Fôn. Siop nwyddau haearn oedd hi ond fûm i erioed ar neges yno. Yn uwch i fyny ar yr allt bu siop bren yng ngardd Graianfryn a gedwid gan Iorwerth Williams. Yno y dechreuodd ef mewn busnes fel cigydd cyn symud i Stryd y Plas yng Nghaernarfon.

Bu siop cigydd cyn hynny yn y Fron Hyfryd ar gyfer Talybont a'r drws nesaf, yn Castle View,

bu siop fferylllydd a gedwid gan Mr Hoblyn. Bûm yno yn nôl powdwr i'w losgi ar y caethdra (asthma) i mam rywdro.

Yn y Foelas roedd siop yn y ganrif ddiwethaf. Siop gyffredinol oedd a gedwid gan Morus Asarcia. Oddi yno y cafwyd y coes mochyn i wleddda arno ym Mhenrhosddu. Soniais am hynny mewn rhifyn cynt o Eco'r Wyddfa. Yn fy nghof i John Davies oedd siopwr y Foelas House.

Mi fu siop a thŷ yn Eryri House, ar gyfer Capel Hermon, ond ail-drefnwyd yr adeilad i greu Sefydliad Coffa Arwyr Llanrug yn 1922.

Yn Birmingham House

parhad ar dudalen 18



Uned 1A BRYNAFON LLANRUG

Ffôn: (01286) 674100 (dydd)

(01286) 650732 (fin nos)

FFENESTRI : DRWSAU

DODREFN : GRISIAU

GWATH TURNO

BLVCHAU CLOCIAU

BLYCHAU DAL OFFERYNNAU

BLYCHAU ARDDANGOS

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd - 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwm

Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR

Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

Dawns y Fflamau gan Y Gwalch

Cefais syndod yn ddiweddar drwy ddarnganfod fy mod — rhwng creu gweithiau mwy sylweddol — wedi cyfrannu tros gan gwaith i'r papur yma; llon a lleddf, gwae a gwynfyd, credadwy ac amheus, sydd wedi rhoi i mi'r haeddiant o gael fy nosbarthu hefo'r hogyn hwnnw a waeddodd flaid unwaith yn rhy aml. Mi faswn mae'n siŵr yn gallu straeona ymhell i ganrif arall, ond mae hi'n rhy fuan o beth bynnag hanner can mlynadd. Biti garw.

Pwrpas y rhagymadrodd yw eich cyflyru i dderbyn y canlynol fel efengyl, a all gael ei ategu gan neb llai na golygydd 'Dail-y-post' pe bai angan. Hanesyn ydy o wedi ei ysgogi gan weithgareddau lleol y 'gwrachod' chwalad y rhai sydd yn amlwg erioed wedi clywad am Geunor Ddu a'i chwanogwydd am blant bach wedi eu berwi.

Ddwy flynnadd yn ôl oedd hi; noson Alban Eilir: 'Vernal Equinox' i chi a nhw. Roeddni oedd yn gorfod dibynu ar gynnyrch tymhorol y tir, pan oedd amaethu yn grefft, yn rhoi sylw i'r pedwar Alban, cyn i ni ddechra cael 'Income Support' o Brussels a thractors i arbed i ni gryn lafur bôn braich drwy gario hanner ein caeau allan i'r lôn i'n cyfarfod.

Roedd hi'n lleuad braf a rhyw ias o farug. Roeddwn i ar fy nhraed tua thri yn y plygain, ar ba berwyl, wna i ddim dadlenu. Dydy pawb ddim yn gallu gwneud llwybr i'w law gefn dydd gola.

Mae 'na olygfa ddigon helaeth oddiar yr allt yma o'r cwmpasoedd a'r gwaelodion hefo'r afon Rhythallt yn dolenu islaw. Ar ei glan hi mae yna lanarch, wedi hanner ei thraflyncu erbyn hyn gan frwyn ac eithin, fel y mae y rhan fwy o 'gefn gwlad' chwalad yr arbenigwyr amaethyddol ddarfu ddim cyrraedd i'n plith yn ddigon buan i werthfawrogi gwir ystyr y gosodiad.

Yn y fan honno roedd yna dân a rhyw symudiadau o'i gwmpas o,

ac erbyn i mi estyn fy ngwydra, beth welais i ond tri o rhyw betha noeth yn prancio o gwmpas y tân, ond yn y lloergan anelwig fedrwn i ddim deud prun ai heffrod ynta bustuch oeddannhw. Siomedigaeth fawr.

Mae'n rhaid eu bod nhw wedi hel dipyn o ffagal o flaen llaw. Roedd y tân yn mynd i lawr yn ysbeidiol, ac yr oeddannhw yn taflu chwanag amo fo bob yn ail â phrancio, ac mi fasa rhywun yn dychmygu erbyn hynny eu bod nhw yn grwyn ier trostyn, os nad yn grwyn rhywbath brasach.

Mi soniais i am y digwyddiad wrth un neu ddau yn lleol, ond rhyw natur gwneud cern yr oeddannhw a throi eu llygada, cystal â thaflu mai wedi codi drwy fy hun yr oeddwn i. Ond daeth dehongliad o'r cyfeiriad mwy a nisgwyl fel mae petha fel yna yn dwad yn aml.

Yn ystod yr hwro fu yna ers dim llawar yng nghylch y bobol amheuthun yma, sgrifennais ddarn gwamal i 'Ddail-y-post' i ddweud hana y dawnswyr, ac yn eangu drwy ychwanegu fy mod ar ddyd mynd i lawr atyn nhw, ond fy mod i arswyd wedyn y basa nhw yn mynnu i mi dynnu fy nghoban, peth fasa yn siŵr o roi adwyth angeuol i mi ar y ffasiwn noson. I fy mawr syndod cyhoeddwyd yr ychydig frawddegau rheiny ac anghofiais am y peth.

Ond ymhen rhyw dridia wedyn, yr oedd yna lythyr yn yr un papur wedi ei arwyddo gan rhyw ddyn o Gaer, a dyma arall eiriad ohono:

'Aeth llythyr John Williams a fi yn ôl ar lwybrau atgof,' medda fo fel 'na. 'Y fi oedd un o'r rhai noethion welodd o yn dawnio rownd y tân yn Llanrug y noson honno, h.y. os nad oes yna gylch yn y fro honno yn dilyn yr hen grefydd.'

Roedd o'n mynd yn ei flaen wedyn i fawlganu ffasiwn brofiad mwynhaol oedd o; yn un hefo'r Cosmos Mawr chwalad yntau, ac os mai dim ond trwch fy nghoban sy'n sefyll rhyngdda fi a'r profiad anfeidrol hwnnw, mae o'n sobor o beth.

Ymhellach roedd o'n dadlennu fod y pwyllgor (mae'n

rhaid ei fod o'n sefydliad o rhyw faint) yn pasa dwad i Lanrug eto y flwyddyn nesa, ac os oedd o'n taflu o bell ei fod o'n disgwyl i mi gynneu iddyn nhw yn barod, siomiant sy'n ei aros o. Wedyn roedd o'n fy nghyfarch i yn bersonol wrth fy enw fel pe tasa ni wedi ein magu hefo'r un dêth o'r dechra cynta.

'Paid a bod ar gyfng gyngor y tro nesa John,' medda fo fel 'na. 'Tynn dy goban a thyrd i lawr ata ni. Mi wnaiff fawr les i ti.'

Wn i ddim a oes yna rhyw un arall o'r hen blwy wedi cael gwahoddiad hefyd. Os nad oes, mi ddyliwn gyfri fy hun yn freintiedig debyg. Ond mae 'na ryfgy yn gysylltiedig â

mabolgampau fel yna na ddaeth rawg i fy meddwl i nes i mi ddigwydd sôn wrth yr hen fachgan hwnnw yn y tŷ byta yn y dre.

'Gwranda,' medda fo fel 'na mwya maswaidd. 'Madda i mi ddeud wrth ti. Paid a'i gymyd o'n groes; dim byd yn bersonol, er dy les di dwi'n deud. Faswn i ddim yn mynd ar eu cyfyl nhw am bris yn y byd.'

'Duwcs, pam hynny?' 'Tasa hi'n digwydd bod yn noson frochus ag i wreichionan hedag i dy wallt ti, mi fasat yn cael achos i ddawnsio!'

Erbyn meddwl roedd o'n eitha cyngor. Cadw draw fydd ora i mi.



Yn yr ardd!

WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL



**ANGEN CODI CLODDIAU
O UNRHYW FATH
A FFENSIO?**

Cysylltwch ag

WALIO

R. E. PRITCHARD
PARC, CARNEDDI, BETHESDA
(01248) 601216

A
FFENSIO

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!



**J.M.
JONES
A'I FEIBION**

**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR
LLANRUG**

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

**Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)**

S4C. PRIF LWYFAN DRAMA CYMRU

Porc Peis Bach

YN CYCHWYN MIS MEHEFIN 2000



S4C

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Bedydd Gwenno Mair Griffith
3 Ebrill, 2000

Ar fore Sul y Blodau
A'r Gwanwyn yn y tir;
Daeth pawb i gyd i'r Eglwys,
Mae'r neges yma'n glir.

Er mwyn bedyddio plentyn
A'i henw Gwenno Mair;
Er mwyn sancteiddio'i henw
A chredu yn y Gair.

Boed iddi fywyd dedwydd
O dan ofalaeth Duw,
I barchu'r Deg Gorchymyn
Tra byddo hi yn fyw.

Boed iddi Wanwyn hapus
A iechyd a hir oes
I wneud ei rhan fel Cristion
A dilyn Gŵr y Groes.

John V. Morris
Rhianfa, Clwt-y-bont

Y SEINDORF. Enillwyr Clwb 200
y Seindorf am fis Mawrth oedd:
Ann Thomas, Bethesda: £25;
Daniel Woods, Dinorwig: £15;
Idris Parry, Rhes Faenol: £10.

Enillwyr mis Ebrill oedd: Vera
Parry, Bro Dawel: £25; Elfrys
Jones, Minafon, Clwt-y-bont:
£15; Windsor Williams, Rhes
Marian: £10.

CYMDEITHAS CYFEILLION
EGLWYS CRIST. Cynhaliwyd
cyfarfod nos Lun, Ebrill 3 gyda'r
Parchedig Tegid Roberts yn
llywyddu. Treuliwyd noson ddifyr
iawn yng nghwmni Mr Ken Jones,
Llanberis yn sgwrsio a dangos
amrywiaeth o sleidiau am ardal
Llanberis. Diolchwyd i'r gŵr
gwadd gan Mr Brian Price.
Cynhelir y cyfarfod nesaf nos
Fercher, Mai 3 am 7 o'r gloch a'r
gŵr gwadd fydd Mr Rol Williams,
Waunfawr.

**PEIDIWCH
A GORI
AR STORI**

anfonwch hi i

Eco'r Wyddfa

TÂN. Bydd aelodau o Gyngor
Eglwys Deiniolen yn derbyn
rhoddion ariannol i helpu teulu 13
Hafod Oleu a ddiodeffodd dân
difrifol yn eu cartref yn ddiweddar,
yn Festri Ebeneser dydd Mawrth,
Mai 2, rhwng 2 a 4 o'r gloch y
pnawn, a rhwng 6 ac 8 o'r gloch
yr hwyr. Mae'n dda dweud na
chafodd neb anaf yn y tân.

Cinio Dathlu Canmlwyddiant Ysgol Brynrefail

Nos Sadwrn, Medi 23, 2000
Gwesty Fictoria, Llanberis
7.30 ar gyfer 8.00 o'r gloch
Pris £16.00

Oherwydd prinder gofod
cyfyngir y gwahoddiad i gyn-
ddisgyblion, aelodau o'r staff,
cyn-staff, llywodraethwyr a chyn-
lywodraethwyr yr ysgol, boed
hyn ar yr hen safle neu'r newydd.
Yn anffodus ni ellir estyn
gwahoddiad i gymar nad yw'n
gyn-ddisgybl ac ymddiheurwn
am hyn.

Darparwyd ffurflen bwrpasol
ar gyfer cyflwyno eich dewis o
fwydlen a manylion pellach
eraill. Gellir cael copïau yn
uniongyrchol o'r ysgol. Rhif ffôn
(01286) 672381. Os am sicrhau
lle ar y noson anfonwch eich cais
yn ddiymdroi. Y cyntaf i'r felin
. . . ! Y dyddiad olaf ar gyfer
derbyn eich ceisiadau yw Awst 1,
2000 ond rhagwelir y byddwn
wedi llenwi'r ystafell ymhell cyn
hynny.

Anfonwch eich ceisiadau at
Griff Morris, Bigil, 4 Rhos y
Nant, BETHESDA, Bangor
LL57 3PP.

Dylid cynnwys siec am y swm
priodol, yn daladwy i 'Pwyllgor
Canmlwyddiant Ysgol
Brynrefail'. Bwriadwn gydnabod
pob cais a dderbynir.

CWMNI CYFRIF

Gwasanaeth cadw llyfrau

Cyfrifon busnes

£ Cymorth marchnata £
a chynlluniau busnes

Cymorth ar sut i baratoi
ceisiadau am arian

amcan un (objective one)

Cysylltwch â lorwerth Llewelyn



01248 716454

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

MARWOLAETH. Bu farw Robert Edgar Jones, Cartref Prewyl St. Teilo ar Ebrill 1. Roedd yn 79 mlwydd oed. Cafodd ofal mawr a chwmni yn y Cartref yn ei flynyddoedd olaf. Dioddefodd afiechyd blin yn dawel.

Cyn dod i Fethel roedd yn byw yn Llys Berwyn, 4 Gwelfor, Y Felinheli. Gweithiodd i'r Weinyddiaeth Amaeth yng Nghaernarfon am ddeugain mlynedd. Bu'n ffydlaen iawn i Eglwys Bryn Menai. Gwasanaethodd wrth yr organ a dysgodd lawer o blant yn yr Ysgol Sul. Hefyd llanwodd y swydd o ysgrifennydd Cymanfa'r Plant, Dosbarth Bangor.

Daeth yn adnabyddus am ei waith gydag Urdd Gobaith Cymru, Rhanbarth Arfon. Gwasanaethodd fel ysgrifennydd egniol a chefnogodd waith yr Aelwyd yng Nghaernarfon.

Cynhaliwyd yr angladd ddydd lau, Ebrill 6, sef gwasanaeth preifat yng Nghartref Preswyl St. Teilo ac yna yn gyhoeddus yn Amlogfa Bangor. Gwasanaethpwyd gan y Parchedig Gwynfor Williams, Bethel, gyda Mr D. Wynn Williams, Tregarth wrth yr organ. Diolchodd y Gweinidog i bawb am eu caredigrwydd i Robert Edgar ac am eu presenoldeb ddydd yr angladd.

CLWB BRO BETHEL. Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth yn Festri Bethel gyda'r Parchedig Gwynfor Williams yn llywyddu. Croesawyd Mrs Lil Jones yn ôl ar ôl ychydig wythnosau o waeledd, a chydymdeimlwyd gyda Miss Gwyneth Parry ar farwolaeth ei chwaer, Mrs Myra Thomas, yn ddiweddar. Dymunwyd hefyd benblwydd hapus arbennig i Mrs Mary Hughes. Y siaradwr gwadd oedd Mr W.O. Jones, Y Felinheli a chafwyd ganddo sgwrs ddiddorol iawn yn dwyn i gof hen atgofion o pan oedd Stryd Bangor y Felinheli yn llawn o siopau o bob math. Soniodd am lawer o gymeriadau yr hen ddyddiau ynghyd â'r nifer fawr o sefydliadau oedd yn fwrlwm o weithgareddau y cyfnod. Diolchodd Mr Siencyn Griffiths iddo, ac hefyd i'r merched am baratoi'r baned. Bydd y

cyfarfod nesaf yn Festri'r Cysegr. **MERCHED Y WAWR.** Cyfarfu'r aelodau yn neuadd yr Ysgol Gynradd nos Fercher, Ebrill 12. Llongyfarchwyd Marnel Owen ar enedigaeth wyres a dymunwyd yn dda i Seiriol Owen ar ôl iddo gael triniaeth yn yr ysbyty. Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Peredur Williams o Hufenfa De Arfon yn sôn am ei waith a chefnidir y ffatri. Ar ôl gwyllo fideo cafodd yr aelodau gyfle i flasgu tri math o gaws. Diolchwyd iddo ar ran y gangen gan Gwyneth Jones. Y gwestwagedd oedd Mair James, Gwyneth Price a Nancy Williams ac enillydd y raffl oedd Ann Lewis.

Yn y cyfarfod nesaf ar Fai 10 byddwn yn mynd ar 'Daith ar Gân' gyda Huw ac Enid Griffith.

YR URDD. Bu nifer o blant yr adran yn cystadlu yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mangor dydd Sadwrn, Ebrill 1. Llwyddodd y côr i gipio'r wobwr gyntaf ac felly fynd ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ddiwedd mis Mai. Daeth y parti unsain yn ail, y grŵp offerynnol yn drydydd, ac ymgom Berwyn, Ceri a Lowri yn drydydd. Cafodd Heulwen drydydd ar yr unawd prês. Llongyfarchiadau iddynt i gyd ac i'r gweddill na fu mor llwyddiannus ar y diwrnod. Enillodd Adran Bentref Bethel y darian am y marciau uchaf i'r adrannau pentref. Da iawn chi blant.

Diolch i'r hyfforddwyr a fu'n paratoi'r plant yn ystod yr wythnosau diwethaf. Pob lwc i'r côr, y dawnswyr, Kelly Cavanagh, y ddrama a'r grŵp pop yn yr Eisteddfod Genedlaethol ddiwedd mis Mai.

Cafodd llawer o'r aelodau wobrau yn yr Adran Celf a Chrefft. Llwyddwyd i ennill 23 o wobrau yn y Cylch ac yn y Sir bu'r canlynol yn llwyddiannus: Gwilym Rhys, Louis Williams, Hannah Gwyn ac Elan Rhys. Bydd eu gwaith yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol i'w feirniadu. Pob lwc iddynt.

I ddiweddu tymor hynod brysur aeth 20 o blant Blwyddyn 5 a 6 i dreulio pen-wythnos yng Ngwersyll yr Urdd Glanllyn. Cafodd pawb amser wrth eu bodd.



Yr enillwyr yn y Ffair Basg.



Jonsi yn beirniadu.

Diolch i Dawn Edwards, Emyr Owen ac Arwel Jones am ofalu am y plant yn ystod y tridiau.

CLWB 200. Enillwyr Clwb 200 Neuadd Goffa Bethel am fis Mawrth oedd: £20: Gwilym H. Williams, 2 Bryn Hyfryd (75); £10: Myrna Owen, Camlan (117); £5: Gwenan Roberts, 14 Stad Eryri (135); Iola Jones, Hafan, Stad y Rhos (16); Gwyneth Williams, Llain yr Ardd (65); Glyn Roberts, Cefn y Gwynt (168); Rachel E. Hughes, Coed Bolyn (122); Lynwen Morris, Perthi (40); Aled Fôn Roberts, Cefn y Gwynt (50); Katherine Jones, Y Ddôlwen (21).

LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchiadau i'r ddwy ganlynol ar lwyddo mewn arholiadau Piano yn ddiweddar, dan nawdd Bwrdd Arholi yr Ysgolion Brenhinol. Gwen

Rowlands, 23 Y Ddôl - Gradd 4 a Ceri Roberts, Gorwel, Y Ddôl - Gradd 1 gyda theilyngdod.

FFAIR BASG. Cynhaliwyd Ffair Basg lwyddiannus er lles y Cylch Meithrin yn ddiweddar. Daeth dau feirniad hynaws iawn i feirniadu y llw a gymerodd ran yn y gystadleuaeth Gwisg Ffansi. Roedd y rhai ifanc wrth eu bodd yng nghwmni Jac y Jwc ac, yn diddori pawb yn ei ffordd ddihafal ei hun oedd neb llai na Jonsi.

Yr enillwyr yn y gystadleuaeth oedd: Oed Meithrin: Bethan Gaffey; Adran Babanod: Gerallt Bryn Jones; Adran lau: Ceri Nia Lewis.

Yn y gystadleuaeth Het Basg aeth gwobr y plant i Lynn Lewis. Dymuna'r pwyllgor a'r athrawon ddiolch i bawb a gyfranodd mewn unrhyw fodd i lwyddiant y noson.

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846



G. EVANS

ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030



Elan Rhys a Heulwen Ostler yn derbyn y darian i'r Adran Bentref gyda mwyaf o farciau ar ran Adran Bentref Bethel yn yr Eisteddfod Sir.



Cyntaf i Adran Bentref Bethel. Côr dan 12 Adrannau Pentref, gyda'u hyfforddwraig, Mrs Nia Guillemain.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

DIOLCHIADAU. Dymuna Maureen ac Alun, Bryn Moelyn ddiolch i bawb am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ar eu pen-blwydd yn hanner cant oed yn ddiweddar.

Hefyd, fe ddymuna Jean a Terry, Llys Elen, Ffordd yr Orsaf ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU. I Dylan Lloyd Jones, Llys Elen ar gael ei Alw i Far Cymru a Lloegr fel Bargyfreithiwr gan Gymdeithas Anrhydeddus y Middle Temple yn Llundain yn ddiweddar. Graddiodd Dylan gyda Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth yn 1998 cyn treulio blwyddyn yn Ysgol y Bar ym Manceinion.

Llongyfarchiadau hefyd i Seindorf Arian Llanrug ar eu llwyddiant diweddar ym Mhencampwriaeth Rhanbarthol Cymru yn Neuadd y Brangwyn, Abertawe. Daeth y band yn ail allan o dri ar ddeg yn eu hadran dan arweiniad Paul Hughes ac fe fyddant yn awr yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Prydain Fawr yn Neuadd Albert, Llundain yn yr hydref.

PLAID CYMRU. Ychydig oedd yn sylweddoli pwysigrwydd y gwyddonydd o Gaernarfon a Chaeathro a'i ddylanwad ar ein bywyd heddiw. Rhoddodd y Cyngorydd Charles Jones sgwrs hynod o ddiddorol ar fywyd a gwaith Syr William Preece yng nghyfarfod Cangen Llanrug a'r Cylch nos Fercher, Ebrill 5. Roedd Preece yn arloeswr ym myd y telegraff, a braf oedd cael croesawu cynrychiolaeth o Glwb Marconi i'r cyfarfod. Llywyddwyd y noson gan Dr Paul Rowlinson.

Arwel Jones fydd y siaradwr yn y cyfarfod nesaf, nos Fercher Mai 17. Bydd yn rhoi sgwrs ysgafn ar hanes pêl-droed yn yr ardal, ac mae croeso cynnes i bawb yng Nghanolfan Gymuned Penisarwaun am 7.30 o'r gloch. **PROFEDIGAETH.** Bu farw Mr Emrys Roberts, Gwylfa, Ffordd yr Orsaf yn dawel yn Ysbyty

Gwynedd. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant i Ceinlys, Ann, Wendy a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth fawr o golli gŵr, tad a thaid annwyl a ffrind da i lawer un. Bydd colled fawr ar ei ôl.

BRYSIWCH WELLA. Mr Owen John Roberts, 2 Hafan Elan. Deallwn eich bod yn gwella yn dda yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Edrychwn ymlaen i'ch gweld adref.

MERCHED Y WAWR. Nos Fawrth, Ebrill 11, croesawyd Mr Bryngwyn Griffiths o Benisarwaun atom gan y llywydd, Mrs Ann Evans. Treuliwyd orig ddifyr yn gwrando arno'n siarad am ei gasgliad o lestri 'Gaudy Welsh'. Llestri ar gyfer y bobl gyffredin oedd y 'llestri llachar' yma mewn gwirionedd ond yr oeddynt yn debyg o ran lliw a phatrwm i lestri crand y bobl gefnog. Serch hynny, ni fu galw mawr amdanynt yma yng Nghymru ac allforiwyd llawer o'r llestri i'r Amerig lle roedd y teuluoedd o dras Cymreig yn falch iawn o'r cyfle i'w prynu.

Bu gan Bryngwyn ddiddordeb mewn llestri ers pan yn fachgen ifanc ond tua deuddeg mlynedd yn ôl y dechreuodd gasglu'r 'llestri llachar' a hynny wedi iddo weld dresel yn llawn o'r llestri hyfryd yma yn nhref Rhuthun. Erbyn hyn mae o'n gryn arbenigwr yn y maes ac efallai i rai ohonoch ei weld ar y rhaglen 'Twrio' ar ddechrau Ebrill neu ei glywed ar raglen Hywel Gwynfryn yn ddiweddar.

Diddorol oedd deall i'w o'r enw Howard Williams, un a chanddo gysylltiad â'r fro hon, enwi rhai o'r patrymau ar ôl pentrefi'r ardal. Mae jygiau patrwm Llanberis a Deiniolen ymhlith casgliad Bryngwyn ond nid yw eto wedi llwyddo i gael gafel ar jwg Pontrhythallt.

Bu nifer dda o'r aelodau mewn Sioe Ffasiwn a drefnwyd gan y Pwyllgor Rhanbarth yng Ngwesty'r Celt ar Ebrill 5. Yn ystod y noson cyflwynwyd tystysgrif i gangen Llanrug a fu'n fuddugol yn y gystadleuaeth Llyfr Lloffion am y flwyddyn 1998-99 a llongyfarchwyd y gangen ar ennill am yr ail flwyddyn yn olynol.

parhad ar dudalen 22

SNOWDONIA PARK

WAUNFAWR Ffôn: 650218

- ★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
- ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
- ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
- ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

★ Dewis da o Lysiau Fferm

★ Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod



870605

**LLYSIAU AR
GYFER PICLO**

Y Roy Castle Lung Cancer Foundation

Bydd y sefydliad pwysig yma yn trefnu taith i'r U.D.A. am ddeg diwrnod gan gychwyn ar Fehefin 22.

Bydd 100 o oedolion yn mynd ar y daith sydd wedi ei threfnu gan swyddfa Lerpwl o'r Sefydliad.

Bwriad y daith yw anfon y neges Dim Ysmygu i bobl ifanc y byd oherwydd yr afiechyd Cancr yr Ysgyfaint. Hefyd bydd y ganolfan yn Lerpwl yn gefeillio hefo canolfan debyg yn yr U.D.A. ac, wrth gwrs, gobeithio codi arian at yr elusen yma.

O'r 100 oedolyn bydd tîm o 4 disgybl ysgol ac mae Ysgol Brynrefail wedi eu henwebu i anfon 2 o'r disgyblion yma i gynrychioli pobl ifanc Ynysoedd Prydain. Y bwriad yw anfon un bachgen ac un eneth wedi eu henwebu gan y disgyblion eraill i gynrychioli holl blant yr ysgol.

Taith fythgofiadwy yn cynnwys ymweld â'r Tŷ Gwyn yn Washington D.C. a chyfarfod ag Arlywydd Clinton a Llysgenad Prydain. Mynd ymlaen i Cape Canaveral yn Fflorida gyda neges gan bobl ifanc y byd i'w hanfon i'r Gofod ac, ar eu dychweliad, cyfarfod â'r Prif Weinidog Tony Blair yn Llundain.

Er mwyn hwrwyddo'r daith byddwn yn gwneud apêl am arian. Mae'r ysgol angen codi £2,000 tuag at y gost o £6,000. (Mae'r gweddill o'r arian wedi ei roddi gan y Roy Castle Lung Cancer Foundation a chwmnïau eraill.)

Byddwn yn cynnal tri gweithgaredd, sef

1. Diwrnod di-wisg ysgol dydd Gwener, 12 Mai (isafswm 50c y disgybl);
2. Taith gerdded nodedig dydd Sul, 28 Mai (50 disgybl o'r ysgol);
3. Raffl fawreddog.

Unwaith eto gwerthfawrogwn eich cefnogaeth yn yr ymgyrch arbennig yma i roi ein hardal a'n hysgol ar lwyfan rhyngwladol mewn ymgyrch sydd yn cyffwrdd calon pob un ohonom yn sicr.

Gwynedd Hotel & Restaurant
Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b.

Bwrdd Pŵl ar gael.
Bwydlen Bar a Restaurant.
Mae gennym bellach drwydded lawn tŷ tafarn.

Noson Caribî

Noson o hwyl a sbri gyda'r disgyblion yn dawnsio a mwynhau naws y Caribî. Pawb wedi gwisgo'n addas at noson o ddisgo traeth. Cystadlaethau 'hula hoop' 'dawnsio limbo' yn ddim ond rhai o ddigwyddiadau'r noson.

Sbort go iawn a braf oedd gweld y wên ar wynebau'r disgyblion, dim i'w wneud ond ymlacio a chael hwyl. Diolch i Bwyllgor yr Urdd am drefnu noson mor hwyliog.



Iwan a Dylan,
Enillwyr y Dawnsio Limbo

Eisteddfodau'r Urdd

Unwaith eto bu'n hwrli bwrli gyda'r cystadlu yn 'Steddfod yr Urdd. O flwyddyn 7 drwodd i flwyddyn 12 yr un oedd y brwdfrydedd, a da oedd gweld pawb yn cefnogi a hybu ei gilydd.

Dyma ganlyniadau y rhai dan 15 oed: Unawd Bechgyn: Huw Foulkes (bl.8) 2il; Unawd Genethod: Elin Mai Jones (bl.7) 3ydd; Unawd Offeryn Prês: Rhys Hughes (bl.7) 3ydd; Parti Llefaru: 3ydd.

Dyma ganlyniadau y rhai dros 15 oed: Band Jazz: 1af; Unawd Bechgyn: Elfed Morris (bl.12) 1af; Deuawd: Elfed Morris a Michelle Roberts (bl.12) 1af; Unawd Offeryn Prês: Urien Huws (bl.11) 1af a Donna Evans (bl.11) 3ydd; Unawd Cerdd Dant: Elfed Morris (bl.12) 3ydd; Unawd Merched: Michelle Roberts (bl.12) 3ydd.

Pob lwc i'r rhai fydd yn cystadlu yn y Genedlaethol ac i bawb arall a gymerodd ran, gan ddod a chlod i'r ysgol ac iddynt eu hunain.

NEWYDDION O Y



Ymweliad â'r Ysgwrn

Ar Fawrth yr ail ar bymtheg teithiodd myfyrwyr Lefel A Cymraeg i Drawsfynydd i ymweld â chartref y bardd enwog Ellis Humphrey Evans, neu Hedd Wyn, fel mae'r rhan fwyaf ohonom yn ei adnabod.

Cafwyd croeso cynnes yn yr Ysgwrn gan Gerald, nai i Hedd Wyn, sy'n agor drws ei gartref i unrhyw un sydd â diddordeb yn hanes ei ewythr enwog, yn rhad ac am ddim.

Mae'r tŷ, fwy neu lai, yn union fel ag yr oedd pan oedd Hedd Wyn yn byw yno, gyda'r hen ddresal, y cloc mawr, yr hen le tân haearn, y tecell ar y bachyn a'r pot llaeth cadw, i gyd yn eu lle gwreiddiol yn y gegin fyw. Go wahanol yw hi yn y parlwr gan nad oes lle i unrhyw ddodrefnyn

heblaw am y casgliad hardd o gadeiriau eisteddfodol a enillwyd gan y bardd. Yn teyrnasu drostynt yn y gornel mae'r enwog Gadair Ddu a enillwyd ganddo yn eisteddfod Penbedw, 1916. Trasiedi yn sicr yw'r ffaith na chafodd Hedd Wyn weld nac eistedd yn y gadair hardd hon gan ei fod eisoes wedi syrthio yn y Rhyfel Mawr cyn cyhoeddi mai ef oedd y bardd buddugol.

Cafwyd cyfle i chwilota drwy'r toreh o erthyglau, lluniau a llythyrau sydd wedi'u casglu a'u cadw'n ofalus mewn ffeiliau gan y teulu er cof am Ellis. Yna cafwyd hanes y Gadair Ddu a chefnidir Ellis a'r teulu gan Gerald a chyfle i holi cwestiynau iddo.

Buan iawn y daeth yr amser i adael a throi'n ôl at Frynrefail ond, yn sicr, bu'n ymweliad gwerthfawr a buddiol. Os cewch y cyfle mae'n werth chweil ymweld â'r amgueddfa ddiddorol hon yn Nhrawsfynydd.

Clwb Cant

Ionawr

1. V.W. Davies, Brynrefail;
2. Evelyn Williams, Llanrug;
3. Sharon Griffiths, Llanrug.

Chwefror

1. Morfudd Thomas, Bethel;
2. J.E. Davies, Bethel;
3. Jackie Sellars, Llanberis.

Mawrth

1. D.W. Evans, Penisarwaun;
2. Euron Hughes, Ysg Brynrefail;
3. Elsie Owen, Llanrug.

Ffurflenni ar gael o'r ysgol os am ymaelodi.



AM OFFER Tŷ A GARDD . . .

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

GOL BRYNREFAIL



Darllen y Sêr

Ar ddudd Llun, Ebrill 10 fe ymwelodd yr actorion Iwan Roberts a Maldwyn John â'r ysgol. Daethant yno i siarad â dosbarthiadau 8N ac 8O am ddarllen. Daethant a llyfrau newydd gyda hwy, a chymerasant rannau allan o'r llyfrau i'w cyflwyno i ni. Roedd y llyfrau'n chwa o awyr iach, ac rydym yn meddwl bod y ffordd yr oeddent yn darllen yn gwneud i'r llyfrau ymddangos yn fwy diddorol.

Ar ôl yr ymweliad rydym yn hynod o awyddus i ddarllen rhai o'r llyfrau a gyflwynwyd i ni gael darganfod beth sy'n digwydd nesaf! Rydym yn credu fod y ddau ddosbarth wedi mwynhau'r profiad yn arw.

Bu eu hymweliad yn llwyddiannus tu hwnt, ac mae pawb nawr yn chwilio yn y llyfrgell am y llyfrau! Hoffwn ddiolch o galon i'r ddau am gymryd yr amser i ddod i siarad hefo ni.

Martin Pitts
a Stephanie Welsby

Llwyddiant Cerddorol

Bu'r pum disgybl yma yn brysur iawn yn ddiweddar yn paratoi at arholiadau offerynol. Daeth llwyddiant i ran pob un ohonynt a llongyfarchiadau iddynt. Mae'n dda gweld bod y brwdfrydedd yma yn gryf ac yn iach yn yr ardal. Daliwch ati.

Rhiannon Jones - Gradd 2

Euphonium; Amy Jones - Gradd 2 Tenor Horn; Nicholas Welsby - Gradd 2 Euphonium; Carys Wyn Hughes - Gradd 2 Tenor Horn; Rhys Hughes - Gradd 4 Cornet.



Gwobrau

Cyngor Chwaraeon Gwynedd

Am yr ail flwyddyn yn olynol daeth dau o'n disgyblion i'r brig.

Personoliaeth y Flwyddyn oedd Eifion Williams o Lanrug am ei orchestreion yn y pwll nofio. Efallai i chwi glywed am ei lwyddiant ym Mhencampwr-iaeth Prydain yn Ipswich ar 25 Mawrth, 2000. Cafodd ail yn y ras 100 metr Dull Rhydd a 4ydd yn y ras 200 metr Medley Unigol, ac yn y ddwy ras daeth record cenedlaethol Cymru i'w ran. Dyna yw llwyddiant yn wir, ac mae'r ysgol a'r ardal yn ymfalchio yn ei lwyddiant.

Y wobr arall oedd i Gareth Roberts, hefyd o Lanrug, am ei lwyddiant ef yn y Gemau Trawsblaniad.



SLIM CHWIM MEWN DIMI
heb lwgu na chwysu

Cael gwared o'r bloneg a'r bol

Yn llesol natruiol, di-lol

CREDWCHI! HOLWCHI!

ffôn: (01286) 830609

- TENEUWCH -
SLIM CHWIM MEWN DIMI

Rygbi — Llwyddiant ar Ddiwedd Tymor

Chwaraewyd rownd derfynol Cwpan y Plât ar nos Fawrth, 12 Ebrill yn erbyn Ysgol Dyffryn Ogwen gyda sgôr derfynol yn 29 i Ysgol Brynrefail a 7 i'r gwrthwynebwyr.

Ar y ffordd i'r ffeinal trechwyd Ysgol y Creuddyn 31-7, Ysgol Bodedern 34-0 ac Ysgol Syr Hugh Owen 43-19.

Dros y tymor mae'r bechgyn wedi datblygu i chwarae fel tîm yn hytrach na phymtheg o unigolion ac roedd y datblygiad yma yn amlwg iawn yn ystod gêm y rownd derfynol.

Yn anffodus, yr oedd ychydig o chwarae budur (gan y gwrthwynebwyr yn bennaf) ond dangosodd y bechgyn ddigon o hunan-ddisgyblaeth ar y cae ac fe ganolbwyntiodd y tîm ar chwarae rygbi.

12 i 7 oedd y sgôr ar hanner amser ar ôl i Rhys Morris a Willi Mullane groesi'r llinell gais a throsgais gan Arron Watkinson.

Y Sgwad

Gethin Vaughan, Derfel Williams, Arfon Salisbury, Dion Owen, Philip Lynes, Michael Jones, Carwyn Roberts, Ben Boothroyd, Sion Emyr, Cefin Williams, Willie Mullane, Rhys Morris, Aaron Jones, Arron Watkinson, Gethin Jones, David Jones, Paul Hughes, Jonathan Gordon, Gari Jones, Michael Jones, John Paul Jones.

Yn yr ail hanner, cafwyd chwarae grymus gan y blaenwyr gyda thaclo arbennig o dda gan Arfon Salisbury, Gethin Vaughan a'r 'Mighty Mouse' Derfel Williams.

Gyda'r meddiant o'r blaenwyr cafodd y tri chwarter ddigon o gyfle i redeg at eu gwrthwynebwyr. Roedd y sesiynau ymarfer gyda Mr Tom Williams wedi dwyn ffrwyth a dangosodd Arron Watkinson, Rhys Morris a David Jones eu sgiliau pasio a rhedeg.

Sgoriodd Rhys (1) a Willie (2) o geisiadau ac 1 trosgais eto gan Arron Watkinson i selio'r fuddugoliaeth.

Mae diddordeb mewn rygbi wedi tyfu yn yr ysgol. Bellach mae timau ym mwyddyn 7, 8, 9 a 10 a'r gobaith y tymor nesaf yw y bydd tîm o dan 18 yn cystadlu yng Nghynghrair Ysgolion Eryri ac y daw mwy o llwyddiant i'r ysgol ar y cae rygbi.

Campau Gymnasteg



Tim Gymnasteg Blwyddyn 7

Daeth llwyddiant i dimau'r ysgol yng Nghystadleuaeth Ysgolion Eryri 2000 gyda chystadlu brwd iawn.

Cafwyd clod unigol i Dafydd Meredydd Williams, bl.7, Martin Roberts bl.8 a Simon Chong bl.9, ac yn ogystal daeth y timau yn agos iawn i'r brig. Timau bechgyn bl.8, bechgyn bl.9, bechgyn bl.9 ganolradd yn 2il gyda'r tîm o flwyddyn 7 yn dod yn 5ed.

Timau'r genethod hefyd yn cael llwyddiant, tîm bl.7, tîm bl.8

a tîm bl.9 yn 3ydd a'r genethod canolradd bl.9 yn dod yn 5ed.

Da iawn wir a llongyfarchiadau i bawb.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Llythyr o'r America

Bath
Brown Co
Dakota Territory.
June 28th 1885

Annwyl Frawd,
Wele fi yn awr yn dy anerch yn awr o gannol Prairie mawr Dakota. Llawer o son a siarad y buom am y lle, onide? Yn awr dyma fi ynddo er bore 27th Sadwrn, tua 7.30 yn y bore.

Diau gennyf dy fod yn disgwyl llawer oddiwrthf o'r fan yma, ac yn awr y mae yma lawer iawn i'w ddweud. Y perygl mwyaf ydyw cael ei foddro, gan y lliaws pethau a dweud dim yn y diwedd.

Does dim sydd yn well na phrawf personol o un rhywbeth. Yr wyf i wedi cael llawer iawn iawn o hanes Dakota gan eraill ond ni fynegwyd i mi mor haner i'r peth ydyw. Yr wyf wedi dweud llawer am Dakota wrthych chwi yna, h.y. dweud yr hyn oeddwn yn ei glywed amdani, ac wrth reswm, fel pob lle yr oeddwn yn clywed y ddwy ochr am dani, y da a'r drwg, ac mi gredaf fy mod wedi clywed tua Cambria braidd ormodedd o'r ochr dywyll, am y rheswm naturiol, fod y rhan fwyaf oedd wedi ymuno yna o Wisconsin wedi gadael cartrefi cysurus. Mewn gwirionedd nid oedd angen arnynt eu gadael, ac yr oedd hynny yn llechu yn eu meddyliau, ac os deuai awel groes yr oeddynt yn anesmwytho ac yn rhoddi ychydig anair i'r wlad, pryd mewn gwirionedd pe buaseant yn cymeryd pwyll y buasent yn dod dros y pethau hynny yn fuan. Rhoddaf i chwi ychydig o fy mam innau etto fel y mae wedi y nharao yn ei golwgfeydd.

Ar ol gadael Millbank ar ol bore Sadwrn dechreuodd ddyddio arnom, ac yr oeddym yn croesi man fryniau pa rai oedd i'w gweled filoedd o honynt ym mhob cyfeiriad. Deuthom am filldiroedd drwy dir felly, hyd nes y deuthom i Andover. Yna yr oeddym yn ei gadael, ac ar darawiad dyma Prairie mawr Dakota yn ymagor fel mor mawr llydan ar de ac aswy ac o'm blaenau. Ar y dde, gwastadedd am ugeiniau o filldiroedd, i'r chwith yr un fath, ac o'm

blaenau yr oedd yn ofandwy i'w weled, yr oedd miloedd o fan Shanys a thai mewn maint yn gymwysedig i'w gweled o'm blaenau, nes oedd yr olygfa yn ymddangos yn y pellder fel tref anferth. Yr holl dai yn ymddangos bron a chyffwrdd ai gilydd, pryd nad oedd dim ond ty ac ysguboriau ar bob 160 acer, ac weithiau 320 acer, 480 acer, a 640 acer, ond wedi'r cyfan yr oeddynt fel tref anferth yn ymddangos i'r llygaid.

O'm blaenau yr oedd gorsaf Groton, 8 milldir o bellder yn ymddangos fel pe buasai mewn tua 2 filldir neu lai. Yna Bath o fewn 8 yn edrych yn gyffelyb. Disgynnais o'r Cars am 7.30 yn Bath, Brown Co. Dak. Aethum ar fy union am damaid i'w gwnoi, achos yr oedd awyr ysgafn y bore fel wedi fy ngwasghau. Gelli agor dy geg a llyncu cymaint a elli o'r awyr yma ac ni byddi ddim gwaeth.

Bum yn meddwl pe buasai llawer bachgen ieuanc yn Llanberis yn dod i Dakota, a bwyta dipyn o'r awyr iachus yma y buasai yn llawer mwy gwell diben na llyncu peth sydd yn eu h'arwain yn brys i ddinysr tragwyddol yna.

Arhosais yn y pentref i aros am gael ride i fyny am 4 milldir i'r wlad at Tom Closs. Gofynnais i'r Hotel Keeper a oedd rhywun gyda Team i lawr o gyfeiriad Tom Closs. Atebodd yntau nad oedd neb ond Team Bob Rowlands (yr hen Ben-y-bryn) i lawr gyda'r mab David. Aethom gydag ef i ddrws yr hotel. Meddai, 'dacw Tom Closs yn trin y coed gyda Team, ddaw ef ddim i lawr yma bellach.' Meddwn innau 'ai ef sydd i'w weled yn y North yng nghwr y coed?' 'Ie,' meddai. Yr oedd yn ymddangos fel petae o fewn hanner milldir. Aethum i fynny o fewn milldir i'w le gyda team yr hen Ben-y-bryn, ac o'r olygfa o wenith oedd ym mhob cyfeiriad. Y mae yma gropiau ardderchog eleni, gwell cropiau na welodd nad yma nac yn Wisconsin erioed. Yr wyf wedi yfed dwr Dakota, wedi bwyta bwyd Dakota, ac wedi cysgu unwaith noson yma. Ni chysgais esmwythas hun erioed.

Y mae gan Tom a Betsy dy

CYMANFA DOSBARTH PADARN

a gynhelir

yng Nghapel Coch, Llanberis

Dydd Sul, Mai 7fed
am 2 a 6 o'r gloch

Arwelnydd: Mrs Lowri Roberts Williams, BRYNREFAIL
Organydd: Mr Gareth Jones, CAPEL COCH

CROESO CYNNES I BAWB

bach cysurus iawn yma. Yr wyf yn ysgrifennu ar ganol y llawr y munud yma o flaen y drws. Gwelaf Bath, mor hwylus a phe buaswn yn edrych ar y castell o'r Fron Goch. Yr wyf i 4 milldir i'r North oddiyno. Y mae y Railroad yn rhedeg o'r East, i'r West ar draws y wlad y mae pyst y Telegraph i'w gweled yn myned yma oddiyma am filldiroedd o bob tu i Bath, fel pyst fences yn Wisconsin. Dyna brawf fod yr awyr yn deneu ac ysgafn iawn yma.

Yr oedd Tom yn y drws yna gyda fi ddoe, ac yn dweud, 'A weli di y clwstwr tai acw i'r South West? dacw dref Aberdeen, 10 milldir oddiwrthym; a weli di y tai acw i'r North West? dacw dref Columbia, 8 milldir oddiyma,' a'r oll yn ymddangos o fewn rhyw 4 neu 5 milldir. Wrth edrych i'r De, gwastad dir diderfyn a welaf, edrychaf i'r Dwyrain, gwastad dir fel y mor, edrychaf i'r Gogledd gwastad dir di-bendraw, ac os edrychaf i'r Gorllewin yr un fath ac y mae yn mynd i'r Gorllewin yn dir gwastad am ganoedd o filldiroedd. Cofia nad wyf yn dweud gair o gelwydd. Cei weled fel fy hunan pan y deui yma, ond cyn i ti ddod dyled fyned i gynefino dipyn bach ar Prairies Wisconsin, achos y mae dod i Prairie mor ofandwy o fawr a hwn yn ddigon a dychryn dyn heb gynefino ychydig a'r Prairie eraill. Nid yw Welsh Prairie ond fel tywod yn ym mysg miloedd tywod man y mor yn ymyl hwn. Rwyf am dreio fy ngorau a Tom Closs gyda mi am gael 160 acres yn yr ardal yma, ond bydd yn rhaid i mi roddi dipyn o ganoedd o ddolcri amdano.

Y mae y fan hon, fel y Welsh Prairies eu hunan o ran trigolion. Rhai oddiyno ydynt oll, ac y mae ganddynt buildings hardd iawn yma.

Byddaf gyda Tom, caf \$80 y mis ganddo am yn agos i 4 mis. Y mae ganddo yn agos i 320 acres dan wenith a cheirch eleni

(20 o geirch a 300 o wenith) a hwnw yn grop harddaf a welais erioed, nid oedd anodd fod moi well. Y mae ganddo 10 acre o wair hadydd. Byddwn yn dechrau ei dorri yr wythnos nesaf.

Mae'n debyg eich bod mor adnabyddus a minnau yn hanes yr achos yn Bath yna, achos y mae cynifer wedi dweud am dano yn y newyddiaduron yma, sef y 'Drych' a'r 'Wasg'.

Pan oeddwn yn cychwyn o Minneapolis nos Wener, ym mysg y cannoedd pobl oedd yn yr orsaf, sylwais ar un o'r dynion, ac meddwyf wrthf fy hun, yr wyf wedi gweled y dyn yna yn rhywle o'r blaen. Yn y man gwelais ynteu yn craffu arnaf finnau. Felly y buom am tua chwarter awr yn craffu y naill ar y llall bob yn ail, a'r un o honom yn ddigon gwrol i fentro at ein gilydd. Deallais ei fod am fynd gyda'r un Cars a minnau, a phenderfynnais gael allan beth ydoedd yn y cars. Aeth ef i fyny ac eisteddodd yn y seat gyntaf. Aethum innau ac eisteddais yn yr ail ar ei ol, a chymerais yn fy mhen i fwmian 'Hen Wlad Fy Nahdau' gan feddwl os oedd yn Gymro ei fod yn deall am yr hen gan hono. Ond cyn gwneud hynny cyfodais o'i flaen i estyn diod o o ddwr, ac wrth fyned heibio iddo yn ol, dyma ni ein dau yn craffu, llygaid yn llygaid ein gilydd, gofynodd ef, 'Cymro wyt ti dwad' meddai. 'Ie' meddwn innau, 'ac mi ddylaiwn mai Cymro ydych chwithau. Yr oeddwn wedi amheu hyn ers meitin' meddwn. 'O ba gwr o Gymru?' meddai (yn llawen ein dau). 'O Arvon' meddwn innau. 'Un o Arvon wyf innau' meddai. Gofynais iddo ai chwarelwr ydoedd. 'Ie' meddai. 'Chwarelwr wyf innau hefyd' meddwn wrtho. Wedyn aethom ymlaen gan holi y naill a'r llall. Gofynais iddo pa le yr oedd ei gartref, a dywedodd mai Rhosbodreual, yn agos i

parhad ar dudalen 22



PATAGONIA
10 - 28 Ebrill, 2000

Taith tair wythnos i grŵp o 10
Cyflwyniad i'r daith gan
Hywel Gwynfryn

RHYS MEIRION
yn y 'Pysgotwyr Perl' (Pearl Fishers)
Coliseum, Llundain. Ebrill 15 - 16

24 Gorffennaf - 8 Awst
BRISBANE, AWSTRALIA
yng nghwmni Timothy Evans (Llambod) ac Annette Bryn Parry

STEPS - Manchester Arena - Mai 20
Manylion pellach (01280) 872777

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580



Mrs Eirian Roberts a ddaeth at aelodau Sefydliad y Merched yn ddiweddar.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Daeth yr aelodau ynghyd i'r Festri nos Lun, Ebrill 17 dan lywyddiaeth Mrs Elinor Williams. Darllenwyd llythyr y mis gan yr ysgrifenyddes, Mrs Pat Jones a chafwyd adroddiad o'r Cyfarfod Gwanwyn a gynhaliwyd yng Nghricieth gan Mrs Jennie Hughes a Miss Alice Williams. Yn ystod y cyfarfod yno coffawyd y ddiweddar Mrs Betty Owen, Tros yr Afon fel un o aelodau ffyddlon Sefydliad y Merched am gyfnod maith a chyn-ysgrifenyddes y gangen leol yma ym Mrynrefail. Cafwyd sylwadau gwerfawrogol hefyd ar anerchiad y gŵr gwadd, sef y Parch Harri Parri, Caernarfon ar Feddyginiaethau y Ddafad Wylt.

Croesawyd gwraig wâdd y noson, sef Mrs Eirian Roberts o adran coluro siop Debenhams, Bangor. Bu'n trafod rhinweddau cynnyrch Clinique ac roedd Mrs Gwenllian Edwards, y fodel o blith yr aelodau yn edrych yn ddeniadol iawn ar derfyn y noson. Diolchwyd i Mrs Eirian Roberts gan Mrs Pat Jones. Paratowyd y baned gan Mrs Lowri Roberts Williams.

Ar y terfyn bu'r aelodau yn brysur yn trefnu cystadlaethau i gymryd rhan ynddynt yn y Sioe Grefft a gynhelir yn Ysgol Brynrefail ar Fehefin 17.

Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Elinor Williams oedd Mrs

Gwenda Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Mai 15 pryd y trafodir yr Argymhellion ar gyfer y Cyfarfod Blynnyddol Cenedlaethol ac yn ystod y cyfarfod hefyd gwobrwyir y ceisiadau am yr het addurniedig orau.

COFION. Anfonwn ein cofion at Mrs Jennie Maxwell, Bro Dawel. Nid yw wedi bod yn rhy dda ei hiechyd yn ddiweddar ac wedi treulio cyfnod byr mewn ysbyty yng Nghaer tra'n aros yno gyda'i merch, Mrs Dilys Robinson. Dymunwn adferiad llwyr a buan hefyd i Mrs Sheila Williams, Bryn Hyfryd wedi iddi dderbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

PENLLYN. Ers peth amser bellach mae Cymdeithas Pysgotwyr yr afonydd lleol wedi bod yn clirio'r glannau ger pont Penllyn. Y datblygiad diweddaraf sydd bron â'i gwblhau yw adeiladu wal draddodiadol o gerrig i amgylchynu'r safle ger glanfa'r cychod lle safai, yn yr amser a fu, hen westy'r Newborough cyn iddo gael ei ddymchwel.

DIOLCH. Dymuna Ifanwy Jones, Rhandir ddiolch i bawb am eu caredigrwydd, yr ymweliadau, galwadau ffôn, blodau a'r holl gardiau a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

Diolch arbennig i bawb yn Ward Ogwen, Ysbyty Gwynedd.

EGLWYS BRESBYTERAIDD BRYNREFAIL. BEDYDDIADAU. Yn yr oedfa fore Sul, Ebrill 2 gyda'r Parch S.O Hughes, Bae Colwyn yn gwsanaethu gweinyddwyd dwy Sacrament o Fedydd. Bedyddiwyd Catrin Alaw, merch fach Steven a Nia Walker, Cytir ac Ifan Gwyn, mab bychan Geraint ac Einir Gwyn, Gwel Elidir. Roedd cynulleidfâ gref yn bresennol ac yn ystod y gwasanaeth darllenwyd llythyr cyflwyniad Mrs Nia Walker, Cytir a'i chroesawu yn gyflawn aelod i'r Eglwys ym Mrynrefail gan Mr Richard Wyn Evans.

Y GYMDEITHAS. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r Gymdeithas am y tymor 2000 yn y Festri, nos Fawrth Ebrill 11. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc, llywydd y Gymdeithas sydd bellach wedi datblygu o Gymdeithas y Chwiorydd i fod yn Gymdeithas y Capel. Estynnodd y Llywydd



Gwasanaeth bedyddio Catrin Alaw ac Ifan Gwyn.

groeso i Gadeirydd y noson, sef Mrs Verna Jones, Meillionen. Cymerwyd at y rhannau arweinïol gan Mrs Carol Huston, 2 Trem Eilian. Croesawyd y gŵr gwadd, y Parch Gwynfor Williams gan y Cadeirydd. Treuliwyd noson hynod o ddiddorol yn ei gwmni yn trafod ei ymweliad â dinas Rhufain ac yn arbennig y cysylltiadau â Chwstennin a'i bwysigrwydd mewn hanes. Dangoswyd sleidiau pwrpasol o olygfeydd a safleoedd yn y ddinas a nifer ohonynt yn fannau nid mor wybyddus i'r teithiwr cyffredin. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad graenus ac addysgiadol gan Mrs Lowri Roberts Williams, Godre'r Parc. Paratowyd y lluniaeth gan Mrs Euronwy Roberts, 8 Trem Eilian a Mrs Eirlys Williams, Marino.

Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Mai 11 pryd y disgwyllir Mrs Eryl Roberts, Llanrug i roi sgwrs.

SUL Y PASG. Cynhaliwyd oedfa foreol gyda'r Parch Harri Parri yn gwasanaethu. Gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd yn ystod yr oedfa.

RIHYRSAL. Cynhelir Rihyrsal ar gyfer Cymanfa Dosbarth Padarn ym Mrynrefail nos Sul, Ebrill 30 am 6.45.

TREFN YR OEDFAON.

Mai 7: Cymanfa Dosbarth Padarn yng Nghapel Coch Llanberis am 2 a 6 o'r gloch;

Mai 14: Mr Meirion Evans, Lerpwl am 5.30;

Mai 21: Mrs G.A. Williams, Llanddona am 5.30;

Mai 28: Mr W. Arfon Roberts, Pwllheli am 5.30.

CO-OP LLANRUG

- * Bydd y siop yn agor tan 7pm bob Nos FAWRTH a Nos IAU o 4 Ebrill
- * Mae defnyddiau garddio - grobags, gwrtaith etc mewn stoc.

bwyd a nwyddau o safon holl anghenion y ty yn lleol

Ffordd yr Orsaf, Llanrug (01286) 672937

PRYD I BAWB

Bwffe at bob achlysur

Bwffe blasus o safon ar gyfer

CINIO BUSNES

CINIAWAU ACHLYSURON ARBENNIG

MEGIS BEDYDD NEU BEN-BLWYDD

PRIODAS

TE PRYNHAWN : TE ANGLADDAU

yn eich lleoliad chi neu yn ein tŷ fferm ni

CERID MACKINNON

(01286) 673190

neu (0374) 925502



Adeiladu wal o amgylch safle Penllyn.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390
DYMUNA Mrs Hilda Williams, 5 Rhes y Faenol ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd unwaith yn rhagor yn ystod ei harhosiad yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Diolch am yr ymweliadau a'r galwadau ffôn ac am bob arwydd o gyfeillgarwch tuag ati.

CLWB FFRINDIAU YSGOL DOLBADARN. Enillwyr Ebrill yw (101) Nerys Fretwell, 1 Frondeg: £35; (114) Hilda Williams, 5 Rhes y Faenol: £25; (82) Keith Roberts, Rallt Isaf: £15; (43) Iona Hughes, Glynrhonwy: £10; (126) Pat Saynor, Maes Padarn: £5.
CYMANFA. Cynhelir Cymanfa Ganu Dosbarth Padarn yn Capel Coch ddydd Sul, Mai 7 am 2 o'r gloch a 6 o'r gloch.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL. Cynhaliwyd y Swper Gŵyl Ddewi yn y Bistro, nos Lun, Mawrth 6. Croesawyd y gwesteion arbennig, Edward a Gwyneth Morris Jones gan y Parchedig John Pritchard. Cafwyd noson hwyliog a diddorol gydag Edward yn canu ac adrodd ambell i stori a Gwyneth yn adrodd cerdd neu ddwy. Diolchyd iddynt gan Mr Hugh R Jones. Dyma gyfarfod olaf y tymor a diolchir i'r aelodau am eu cefnogaeth i'r Gymdeithas dros y tymor.

CAPEL COCH. Bu plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yng Nghymanfa Annibynwyr Dosbarth Cwm-y-glo yng Nghapel Jerusalem, Llanberis ddydd Sul, Ebrill 16. Cyflwynwyd eitem ddiddorol a gwnaeth y plant eu gwaith yn dda fel arfer. Diolch i Mrs Falmai Pritchard a Mr Gareth Jones am eu hyfforddi.

CYFARFOD PLANT. Mae blwyddyn Cyfarfod Plant Capel Coch wedi dod i ben a diolchir i Mrs Vera Griffiths am ei chymorth eleni eto. Byddwn yn ail ddechrau ym mis Medi.

PLAS PENGWAITH. Bydd Mr O.G. Jones, Ms E. Thomas a Mrs M. Bannister yn dathlu eu pen-blwydd ym mis Mai. Dymunwn ben-blwydd hapus iawn iddynt.

Mae Mrs K. Williams, Penisarwaun wedi symud oddi wrthym. Bu gyda ni am gyfnod hapus iawn, ond yn anffodus bu raid iddi fynd i'r ysbyty ac yna symud i Gartref Penisarwaun. Dymunwn bob hapusrwydd iddi.

Hoffai swyddogion a staff y Gartref ddatgan eu diolch i deulu y ddiweddar Mrs C.G. Davies am eu rhodd i'r cartref ar cof am eu mam.

Trist iawn yw gorfod cofnodi marwolaeth Mrs M.M. Jones, neu Peggy i bawb oedd yn ei nabod. Bu farw yn yr ysbyty ond yr oedd wedi bod yma gyda ni ym Mhlas Pengwaith ers bron i naw mlynedd. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w theulu yn eu profedigaeth.

Mae Mrs Beryl Jones wedi bod yn yr ysbyty ond mae'n ôl gyda ni erbyn hyn. Roedd yn rhyfedd yma hebddi a braf yw ei gweld yn ôl.

Nos Fawrth, Ebrill 18 cawsom ein diddori gan y ddeuawd Enid ac Ifan. Roedd pawb wedi mwynhau

eu hunain. Nos Lun, Ebrill 24 cafwyd noson yng nghwmni grŵp sydd yn mynd o gwmpas i gadw nosweithiau a drefnir trwy'r ysbytai. Diolch iddynt hwythau am ddod i'n diddori.

Rydym hefyd wedi cynnal cystadleuaeth yn y Gartref i ddewis enwau i'r gwahanol unedau yn y Gartref, ond nid ydym wedi cael y canlyniadau eto.

Croeso cynnes i Mrs Veronica Roberts o Fethesda sydd wedi dod atom am gyfnod byr. Mae Mrs M. Mathews, cyn Swyddog y Gartref wedi cael ei phenodi i Gartref Bryn Blodau, Llan Ffestiniog fel Swyddog y Gartref hwnnw, a Mrs Christine Williams wedi cael ei phenodi yn Swyddog y Gartref ym Mhlas Hedd. Dymunwn bob lwc a llwyddiant iddynt yn eu swyddi newydd oddi wrth bawb ym Mhlas Pengwaith.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd y Cyfarfod misol o Undeb y Mamau Eglwys Sant Padarn yn y Rheithordy bnawn dydd Mawrth, Ebrill 3. Yr ysgrifenyddes, Mrs Audrey Evans gymerodd y Gwasanaeth a'r Gweddïau. Croesawyd y gŵr gwadd yn gynnes iawn, sef Mr Ken Jones, Blaen y Ddôl, a chafwyd amser difyr iawn yn ei gwmni. Mwynhawyd ei sgwrs addysgiadol am 'Hanes Lleol' a chael gweld sleidiau am yr hyn yr oedd yn cyfeirio ato. Teimlir fod Ken bob amser yn barod ei gymwynas. Cafwyd ychydig o faterion busnes, a darllenwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a'u derbyn yn gywir. Gwnaed y diolchiadau gan Mrs Nan Owen ac eiliwyd gan Miss Glenys Parry. Mrs Nellie Morris oedd yn ymorol am y baned y mis yma, ac Audrey Evans oedd enillydd y raffl. Diweddwyd drwy adrodd y Gras.

RHEDWR. Llongyfarchiadau i Gwyn Arfon Williams, 35 Dôl Elidir am ennill ras y Moelwyn dan 16 oed dydd Sadwrn, Ebrill 22 a thorri'r record oedd wedi sefyll ers 1987. Enillodd mewn 22 munud a 35 eiliad.

DIOLCH. Hoffai Dafydd a Doreen Roberts, 50 Maes Padarn a'r teulu ddatgan eu diolch yn fawr iawn i bawb yn yr ardal am eu cefnogaeth, cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau â nhw tra bu Dafydd yn yr ysbytai yn Lerpwl. Diolch yn fawr iawn.

DIOLCH. Dymuna Mrs Beryl Ellis ddiolch yn ddiffuant i bawb yn Llanberis a'r cylch am eu caredigrwydd a'u cynhaliath yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Mrs Jean Roberts, 5 Dôl Eilian ddiolch i Feddygfa Llanberis a hefyd i Ysbytai Manceinion, ffrindiau, cymdogion a'r teulu am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd pan oedd yn cael llawfeddygaeth ar y galon.

DIOLCH. Hoffai Mary Wyn Morgan ddiolch i bawb am eu caredigrwydd yn ystod ei chyfnod yn Ysbyty Gwynedd a diolch yn arbennig i'r Parchedig John Pritchard am ei ofal drosti.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS.

Ar Ben Arall y Lein

Dyna fis arall heibio a dim llawer yn digwydd oherwydd y tywydd. Rwy'n dal i lynu wrth yr hen reol — os oes eira ar y topiau, yna cadw'n glir o'r afon. Dyna fy esgus i, ond fel arfer mae aml i un i'w weld yng nghyffiniau Crawia yn chwipio'r dŵr, ac yn ôl y sibrydion mae brithyll braf wedi gweld eu hunain yn y badell. Mae'n dda hefyd gweld aelodau sydd newydd ddechrau 'sgota yn frwdfrydig iawn, ac allan ym mhob tywydd. Calonogol yw gweld ymhlith yr aelodau newydd nifer o ferched y fro. Mae llawer llyfryn yn cyfeirio at y ffaith mai'r merched sy'n gwneud y 'sgotwrs gorau ac eu bod yn gyson yn dal y pysgod trymaf. Caiff hyn ei ategu gan y ffaith mai merch, sef Miss Georgina Ballantine, sydd yn dal y record am yr eog trymaf i'w ddal yn yr ynysoedd yma, sef 'sgodyn 64 pwys a ddaeth o Glandelvine ar yr afon Tay yn yr Alban yn 1922.

Mae cyfle i unrhyw un sydd eisiau cyfle i ymafael â'r grefft ddod i unrhyw un o sesiynau hyfforddi y clwb. Byddwn yn dechrau arni yng Nghlwb Rygbi Caernarfon am 6.30 nos Fercher, 10 Mai. Ac wedyn ar y dyddiau canlynol ar wahanol ddyfroedd y clwb: Sadwrn 20 Mai; Sadwrn 3 Mehefin; nos Fercher 7 Mehefin a Sadwrn 17 Mehefin.

Bydd y manau cyfarfod yn cael eu trafod ar y 10fed. Mae croeso cynnes i bawb o unrhyw oed. Bydd offer ar gael i'w fenthyca ac, yn bwysig iawn, ni fydd eisiau talu. Mae rhyw sibrydion y bydd Dywarchen yn werth ei 'sgota pan fydd y garfan hyfforddi yn penodi diwrnod i ymweld. Bydd rhaid dod i'r Clwb Rygbi i gael y genl!

Fel y gwyddoch mae'r clwb, drwy nawdd Cyngor Gwynedd, wedi dechrau ar uwchraddio rhai o lecynnau ar lannau'r llynoedd a'r afonydd. Un fan boblogaidd gan lawer yw Penllyn, ble mae clawdd a mynediad i'r anabl a man eistedd yn cael ei baratoi. Gobeithio y caiff y lle lonydd wedyn gan rai elfennau difeddwl y fro. Cyfeiriai at hyn oherwydd beth sy'n mynd ymlaen ar safle parcio'r aelodau yng Nghrawia. Mae'r darn tir wedi ei ddacluso gan yr aelodau ond y taclusaf yw pethau mae rhai am y gorau i'w difetha. Mae rhai yn meddwl mai tip sbwriel yw unrhyw le sy'n cael ei ddacluso. Yn y dyddiau diwethaf mae rhywrai wedi dympio llwyth o goed leilandi mawr ar ganol y maes parcio a hefyd mae hen ddrysau ceir wedi ffendio eu ffordd yma. Os oes unrhyw un yn gwybod pwy sydd mor anghyfrifol buaswn yn fwy na diolchgar o gael y wybodaeth.

Mae'r mis hwn wedi bod yn fis prysur iawn i'r côr. Dechreuwyd ar y 5ed o Ebrill gyda chyngerdd yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis i ddiddanu'r ymwelwyr oedd yn aros yno.

Nos Sul, 9: buom mewn Cymanfa yng Nghapel Sardis Dulas, Ynys Môn, o dan arweiniad Mr Arwel Jones. Roedd cynulleidfada iawn wedi troi i mewn i ymuno yn y canu ac i wrnado ar eitemau gan y côr.

Nos Sadwrn, 15: braint fawr i'r côr oedd cael ymuno gyda 'chantorion o fri' yn Theatr y Pafiliwn, y Rhyl gyda Idris Charles yn cyflwyno y gorau o'r ddau fyd,

Gyda'n gilydd yw'r unig ffordd i roi diwedd ar y rhai sydd a'u hymddygiad mor wrth-gymdeithasol yn ein mysgr.

Mae'n bleser hefyd cael dweud fod pryniant hawliau pysgota ar Afon Gwyrfa i Llyn Cwellyn ar fin cael ei gwblhau. Rhaid diolch i'r Fenter Goedwigaeth am gytuno i symud ymlaen â phethau, a hefyd i Dafydd Wigley AC am ei gefnogaeth i'r fenter. Hefyd Cyngor Chwaraeon Cymru am eu cymorth ariannol, a phawb, yn enwedig aelodau Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas, am eu gweledigaeth am y dyfodol. Drwy hyn i gyd bydd mynediad i bysgotwyr anabl yn cael ei greu. Bydd yn rhoi agoriad i lawer un ymweld â rhan o'n bro a oedd gynt ond breuddwyd. Diolch o galon i bawb.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, drwy gymorth Interreg, cefais gyfle i ymweld â chynlluniau gwella pysgodfeydd mewn gwahanol ardaloedd yn Iwerddon. Mae'r gwaith yno yn enfawr ac, wrth gwrs, mae'r budd y mae'r gwaith yma yn ddod i economi'r ardaloedd gwledig yn enfawr. Ond y peth oedd yn fy nharo dro ar ôl tro oedd, nid oedd yno unrhyw beth na allwn i ei wneud yma, a chael yr un budd i'n cymunedau gwledig. Mewn difri, does dim dros y dŵr i gymharu a gogoniant Eryri. Rydym yn ceisio yn awr, drwy gydweithredu â Chyngor Gwynedd, Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Awdurdod Datblygu, Bwrdd Twristiaeth Cymru, y Parc Cenedlaethol a'r Cyngor Cefn Gwlad i efelychu datblygiadau Iwerddon. Os cawn yr arian cawn weld lle aruthrol yn disgleirio ar yr holl fro.

Un bach wrth gloi. Mae tipyn o dalent yn y clwb yma: clywais un bardd go adnabyddus o'r fro ar y radio y diwrnod o'r blaen yn canu hefo'i gi. Rhaid imi ddweud fod gan yr hen gi well llais. Fel cliw mae'r ci am roi tro arni yn yr eisteddfodau y gaeaf nesaf o dan yr enw Bendigeidfran.

Beth am un arall: pwy tybed a ddisgynodd dros ei ben i Lyn Brenig, a hithau'n bwrw eira, dim ond ei het yn fflotio ar wyneb y dŵr. Rhag ei gwilydd ac yntau'n gwybod yn iawn nad oes dim nofio i fod mewn cronfa ddŵr gyhoeddus. Be fuasai'r heddlu yn ddweud tybed ac yntau wedi dreifio adref yn ei drôn!

H.P.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

sef Dafydd Iwan a'r band, Timothy Evans, Lynda Healy ac Annette Bryn Parry. Cafwyd noson i'w chofio.

Erbyn y daw y rhifyn hwn o'r Eco allan bydd y côr wedi cael cyfarfod rhai o ymwelwyr Landerneau, Llydaw lle y cawsom y croeso mwyaf bendigedig pan yno ar ymweliad fis Gorffennaf y llynedd.

Nos Sadwrn, 29: bydd y côr yn ymuno i ddathlu pen-blwydd hapus i un o'r ardal, ond sydd yn byw yn Corby, Northants ers rhai blynnyddoedd bellach. Dymunwn y gorau iddo ac i'r teulu ar eu hymweliad â ni.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

GARTREF O'R YSBYTY. Da yw deall fod Mr Ray Bowen wedi dod adref o'r ysbty ym Manceinion a'i fod wedi cael newyddion lled dda; Gobeithio y bydd yn dal i wella. Brysiwch wella Mr Bowen.

DAMWAIN. Drwg gennym ddeall fod Mrs Betty Bowen, Tan y Marian wedi syrthio ac wedi cracio ei phen-glin. Trist yw ei gweld yn ymlwybro hefo baglau ond gobeithio y cawn ei gweld yn ymlwybro fel ag o'r blaen yn lled fuan.

YN CWYNO. Drwg yw gennym ddeall nad yw Miss Maggie Jane Jones, Y Foel yn dda, gobeithio y caiff hi a phawb arall sydd yn cwyno yn yr ardal lwyr iachad yn fuan. Brysiwch wella i gyd. Fe ddaw y gog toc, ac yna yr haf.

GWYLLIAU'R HAF. Os ydych yn meddwl mynd ar eich gwyliau eleni i Sbaen, ac am ddysgu'r iaith, fe fydd dosbarth yn cychwyn yn Menter Fachwen yng Nghwm-y-glo yn lled fuan. Os oes gennych ddiddordeb, ffoniwch Goleg Menai: (01248) 383333.

CYFLE ARALL. Os oes awydd gennych ail afael mewn dysgu y mae Coleg Menai yn cynnal cyrsiau yn rhad ac am ddim i bob oedolyn. I'w cynnal yn y Ganolfan, byddant yn gyfeillgar ac yn anffurfiol. Bydd angen beth bynnag wyth yn y dosbarth ac fe fydd modd eu cynnal yn ystod y dydd neu gyda'r nos. Mae llawer o gyrsiau ar gael. Os oes gennych ddiddordeb a fuasech cystal a chysylltu â fi fel y gallwn baratoi. Maent yn meddwl dechrau y cyrsiau yma yn mis Medi os bydd diddordeb.

CAU CAPEL M.C. Do, fe ddaeth y diwrnod nad oedd un o'r aelodau am ei weld. Mae yn ddiwrnod na wnaf yn hawdd iawn ei anghofio gan ei fod yn ddydd pen-blwydd fy niweddar fam yn 90. Yr oedd yn edrych fod brys mawr ar ran yr Henaduriaeth i'w gau. Derbyniodd yr ysgrifennydd lythyr ar Sadwrn 25 o Fawrth yn dweud ei fod yn cael ei gau ar y Sul, 26 o Fawrth. Doedd dim amser i baratoi cyfarfod arbennig. Mae llawer o blant yr eglwys wedi dweud y buasent wedi bod yn falch o gael dod am

y tro olaf i'r gwasanaeth, gan iddynt gael eu magwraeth yn yr Eglwys. Maent yn teimlo eu bod wedi cael eu hanwybyddu a'u brifo. Gallaf eich sicrhau nad oedd bai ar Swyddogion yr Eglwys. Yr Henaduriaeth oedd i'w beio.

Mae gennyf ofn erbyn heddiw fod yr Henaduriaeth yn rhoi arian o flaen aelodau'r Eglwys. Mae angen mawr pregethu dameg y gŵr goludog arnynt, a llai o strategaeth fel tith yma yn y Beibl. Do, fy ddywedwyd wrthym fwy nag un peth nad oedd yn gywir. Rhoddwyd rhybudd nad oedd neb i fynd i'r capel gan ei fod mewn cyflwr peryglus, ond y peth cyntaf a welais a fy llygaid fy hun oedd aelod o'r Henaduriaeth, heb na het galed na dim arall ar ei ben, y tu mewn i'r capel yn tynnu lluniau. Wrth weld hyn fe fentrais innau i mewn. Welais i ddim o'r peryglon a ddywedwyd wrthym oedd yno. Yr oedd yn edrych mor hardd ag erioed. Yr wyf yn cyfaddef fod eisiau gwario am yd wrth gwrs yr oedd gennym yr arian i wneud hynny, ond ni wnai yr Henaduriaeth ganiatau i ni wario arno.

Pan yn agor y capel dywedodd y diweddar Barch William Jones o Ruddlan mai Tŷ Duw ydoedd. 'O na,' meddai wedyn, 'eich ty chwi fel aelodau ydyw.' Ond nid gwir y geiriau yna heddiw. Mae'n edrych fod yr Henaduriaeth yn hawlio y cyfan yn anffodus.

Y Sul y derbyniwyd ni yn aelodau yng Nghefn y Waun, sef y Sul cyntaf o Ebrill, testun y Parch John Pritchard ydoedd, 'Peidiwch a chymeryd eich twyllo'. Tybed a fuasai wedi bod yn bregeth amserol iawn i rai o'r Henaduriaeth hefo ychydig o newid i'r geiriau, sef 'Peidiwch a thwyllw eich aelodau Eglwysig'.

Tristwch mwyaf y sefyllfa yw am bob un Eglwys Dduw maent yn ei gau, nid un aelod maent yn ei golli ond llawer mwy. Cyn-aelodau a phlant yr ardal sydd oddi cartref, os gwelwch yn dda peidiwch a gweld bai ar y Swyddogion. Fe wnaethom drio pob dim i gael cadw y capel yn agored. Yr

Henaduriaeth a'i cauodd o, dim yr aelodau, a braf yw gallu dweud hynny. Cymeraf ar y cyfle yma i ddiolch i'r Parch John Pritchard, y Swyddogion a'r aelodau am y

croeso y maent wedi ei roi i ni i Eglwys Cefn y Waun. Croeso cynnes iawn. Diolch o galon ichwi fel Eglwys.

Braslun o Hanes yr Eglwys

Fe'i sefydlwyd yn 1824/5 mewn Ysgoldy, ar gwr y chwarel. (Ysgoldy, y tŷ, heddiw) Yr oedd gwasanaeth yn Fachwen o flaen Dinorwig. Y gweinidog cyntaf oedd Morris Hughes yn pregethu yn amlach yn Fachwen na Dinorwig.

Gan fod rhif yr aelodau yn cynyddu ac effaith y diwygiad yn dal, rhaid oedd cael mwy o le i addoli. Yn y flwyddyn 1833 cafwyd prydles ar dir gan y Faenol am 99 o flynyddoedd am rent o swllt y flwyddyn. Talwyd y ddyled mewn 12 mlynedd, sef y swm o £750.

Sefydlwyd yr Ysgol Sul gyntaf yn Ninorwig. Yn 1843 drwy gryn ymdrech fe sicrhawyd Clwt y Bont Bach am y swm o £300 yn fynwent berthynol i'r Eglwys.

Yn 1854 roedd rhif yr aelodau yn 157 ac ymhen deng mlynedd roedd y rhif wedi cynyddu i 236.

Yn 1862 agorwyd capel y Fachwen hefo 67 o aelodau. Yn 1878 adeiladwyd Bron Myfyr, sef tŷ a chartref i'r gweinidog. Y gweinidog cyntaf ynddo ydoedd y Parch R.O. Williams. Sefydlwyd ef yn mis Mawrth, 1878.

Yn 1880 cofrestrwyd y capel i weinyddu priodasau. Yn 1888 y Parch R.O. Williams yn symud i Benmaen-mawr. Yn 1890 y Parch Hugh Jones (Huw Myfyr) yn ymsefydlu fel bugail gan ddod yma o Lanllechid. Ar y 9fed o Ragfyr, yn frawychus o sydyn, bu farw y Parch Huw Jones ac yntau ond 46 oed. (Mae cofeb yn y capel hyd heddiw er parch ac i gofio amdano).

Yn 1893 daeth y Parch John Williams o'r Tabernacl, Bangor yma ond byr fu ei arhosiad oherwydd ym 1895 aeth i Gaergybi.

Yn 1895 daeth y Parch John

Pulston Jones yma, ac erbyn y flwyddyn 1900 y oedd rhif yr aelodau yn 237. Er ynd ddall y mae dipyn o waith ei ddwylo i'w gweld hyd heddiw yn y capel. Dic oedd enw ei geffyl ac yr oedd ei stabl yn y modurdy a oedd yn garage yn perthyn i Bron Myfyr ac yr oedd y ceffyl yn cael pori ar dir Tŷ Newydd (fy nghartref genedigol i).

Dilynwyd Pulston gan y Parch Morgan Griffith, wedyn R.H. Watkins, yna y Parch James Eifl Hughes. Wedi hyn y Parch John Parry.

Yr oedd gan Mr a Mrs Parry ferch a mab, sef Haf ac Owain. Yn 1942 cawsant brofedigaeth fawr drwy golli Owain y mab hefo llid yr ymennydd.

Yn 1945 daeth y Parch Ieuan Bryn Williams a'i deulu yma. Yr oedd iddynt hwy dri o blant, sef Iwan Prys (y seryddwr heddiw), Angharad Gwyn (bu hithau yn anlwus yn cael polio) a Bethan Bryn (hithau wedi dod yn enwog iawn hefo cerddoriaeth, yn enwedig y delyn). Mae hi ac Angharad yn byw yn Aberystwyth ac Iwan yn byw yn Lloegr. Yn 1956 symudodd y teulu i Cyffylliog.

Yna daeth y Parch Isaac Jones yn 1957 ac yna yn 1959 y Parch John Price Wynn. Ar ol ei ymadawiad ef egwyls di-fugail a fu yno, ond er hyn, fel y dywedodd llawer cenad, yr oeddym yn eglwys rymus, lewyrchus a chartrefol. Ac ni ddôi neb yma heb dderbyn croeso.

Cafodd Elgwys Dinorwig MC ran helaeth o ddynion cryfion a adawodd eu hól yn fawr arni. Diolch i Dduw am gael fy magu a'm dwyn i fyny yn yr Eglwys, a mawr fu y golled i mi o gau ei drysau.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

GWASANAETH NEWYDD AR GYFER
PARTÏON : PRIODASAU : PEN-BLWYDD
BEDYDD : DAWNS : GWYLLIAU . . .

RHOSTIO
MOCHYN



AR GYFER POB ACHLYSUR

- ★ Cig o ffermydd lleol
- ★ Partïon rhwng 40 a 400!
- ★ Gyda saws afal a stwffin
- ★ Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang

o Welyau a 3P/Suites.

Lienni Venetian a Lienni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

parhad o dudalen 7

(Glasfryn presennol) hen Siop Sion Pantifan, roedd Miss Gillespie yn cadw siop sgloodion ac yno y treuliai ieuencid eu nos Sadyrnau i ddiddanu ei gilydd.

Bron gyferbyn â hon oedd Siop Newydd (Tŷ Fry) a gedwid gan Mrs Roberts a'i meibion, Griffith Hudson a Willie Morris. Roedd hwn yn deulu gwreiddiol o'r ardal ac yn cynnal safonau crefyddol a chymdeithasol y fro. Nwyddau groser a draper oedd eu darpariaeth ac aelodau eglwysig oedd y mwyafrif o'u cwsmeriaid.

Hen lanc oedd William Evans yn cadw siop bach ym mharlwr Ty'n Gorlan ac yn delio mewn papurau Cymreig a chylchgronau. Bu Elias Evans, ei dad, fyw i oedran teg. Mi fu siop bren gorser yn y parc ar gyfer Park Villa a gedwid gan Mr Barlow, brodor o'r Rhos, Wecsam ond symudodd yn fuan i fan arall wrth gil y pontydd ar gyfer tafarn y Relwe. Cauwyd hi yn ddiweddarach.

Prif gyrchfan i siopa yn Llanrug, ers amser maith, yw'r ardal o gylch Croeslon y Post. Bu'r Gymdeithas Gydweithredol yn yr ardal yn gynnar iawn ar y ganrif yn sefydlu ei busnes yn Siop y Co-op. Roedd hawl i ymaelodi yn y gymdeithas yn rhydd i bawb am bunt o dâl. Yr oedd, ac y mae o hyd, yn parhau i gynnig gwasanaeth clodwiw i'r ardalwyr. Am gyfnod maith ffynnodd y busnes dan reolaeth craff Mr Hugh Morris Hughes o Gaethro. Roedd yn sipopwr o fri a'i holl amcan oedd gweini lles y gymdeithas a'i haelodau. Roedd yn ŵr o ddaliadau cadarn ac yn onest iawn yn ei ymdriniaeth â'i gwsmeriaid.

Dros y ffordd yn London House bryd hynny roedd siop teiliwr a gedwid gan David Haydn Griffith, brawd i G.O. Griffith y dilledydd o Gaernarfon ac mab i Owen Griffith (Eryr Eryri) arweinydd Côr Waunfawr. Roedd yn deiliwr o dras a hefyd yn bostmon yr ardal. Yr unig siwt fesur a gefais erioed oedd un lliw pupur a halen a

luniwyd gan Dafydd Haydn, ac yn ffitio fel maneg. Gan mai Mrs Griffith, y wraig, a dreuliai fwyaf o'i hamser yn y siop, roedd ei natur fonheddig, garedig yn gaffaeliad mawr i lwyddiant y busnes.

Gerllaw y Co-op roedd siop R.R. Jones (Bob y Barbwr). Yno cyfarfyddai gwŷr a bechgyn y pentref i gymdeithasu a chael shêf neu drin eu gwallt. Byddai'r cwmni'n ddifyr yno wrth ddisgwyl eich twrn ac ambell i gymeriad ffraeth yn trin a thrafod y barbwr neu rhyw bwnc a fyddai ar dro ar y pryd.

Rhyw lencyn ar wyliau gartref o Fryste oedd dan sylw Guto Ifan un tro, tra disgwyliai am shêf. 'Ble wyt ti'n gweithio rŵan, Wil? Nid yn y chwarael oeddat ti, dŵad?' 'Ia, ond rwy'n gweithio yn Bryste ers tro ac yn aros efo'n chwaer.' 'Be wnei di'n fan'no dŵad?' 'Gweithio yn Fry's Chocolate.' 'O, mae gen ti biwti o job,' medda Guto.

Roedd Regent House, wrth y groeslon, yn hen sefydliad gan fod busnes yma yn 1881, yn ôl y Cyfrifiad. Roedd siop groser a dilledydd yno yn y dau-ddegau. Mrs Annie Williams, gweddw cyn gurad y plwyf a'i cadwai. Cofiaf ddod o'r ysgol ym Mryneryr yno i gael trin fy nannedd. Roedd ystafell ar yr ail lawr wedi ei hurio gan y Deintydd Ysgol, dros dro, i drin dannedd plant ysgolion Glanmoelyn a Bryneryr.

Llanrug House (siop Spar heddiw). Roedd yma siop groser hefyd yn 1881, yn ôl y cyfrif, a gedwid gan David Parry, gŵr priod 42 oed a'i wraig Gwen (26 oed). Roedd ei fam 70 oed Elizabeth Parry, yn cadw'r tŷ.

Yn ystod y cyfnod rhwng rhyfeloedd Griffiths oedd enw'r groser a'i fab Wil Griffiths yn llanc poblogaidd yn yr ardal. Cedwid iard lo yn y cefn a warws flawdiau at anghenion y ffermydd.

Daeth Percy Storer a'i briod Betty i gadw'r siop ar ôl y rhyfel cyntaf a bu Tom Henry Glasfryn, Ceunant a Meic Owen, Plastirion wedyn yn weision cario allan iddo.

Siop y Post. Dyma'r siop hynaf yn ddiau tua'r groeslon. Cedwid hi fel siop wledig yn cyflawni anghenion cyn bod y llythyrdy. Roedd yn bod yn 1841 yn ôl cyfrif y flwyddyn honno a John Williams, gŵr priod 40 oed, a ddaeth yn ei dro yn weinidog cyntaf Capel y Rhos - roedd ef yn hen daid i'r diweddar Frank Pritchard, Motors DM. Tua'r flwyddyn honno y dechreuwyd anfon llythyrau gyda stamp printiedig, y Ceiniog Du. Rowland Hill gafodd y clod am ddyfeisio y gwasanaeth post er bod Samuel Roberts (S.R.) â'i fys yn y brywes yn rhywle.

Roedd yna rhyw hanner dwsin o siopau bach ar gyrion y pentref oedd o fudd at fywoliaeth anffodusion yn y gymdeithas. Pan fu farw'r Hen Siopwr ym Mhantycod a Tom Hughes, ei fab a'i deulu yn ei ddilyn yn y busnes, agorwyd siop fach yn y gegin er budd Mrs Hughes, ail wraig John Hughes, yn 5 Maes Gerddi, rhyw bedwar drws draw o'r siop.

Gan mor fychan oedd y gegin dangosid rhai o'r nwyddau ar astell y ffenestr, yn erbyn y gwydr. Wrth i'r plant ddod adref o'r Band O'Hope tyrrent o gwmpas y golau yn ffenestr Mrs Hughes. Pwniodd un o'r bechgyn ei fys at y gwydr gan ddymchwel potel sos i'r llawr. Rhedodd y plant mewn braw ond safodd Ifor ei dir. Pan ddaeth yr hen wraig i'r drws, 'Ti ddaru hynna, Ifor?' meddai. 'Yr euog a ffy heb neb yn ei erlid, yntê Mrs Hughes,' oedd yr ateb haerllug.

Siop Hermon ar gwrr Penisarhos oedd yn gymorth at fywoliaeth Robert Hughes, y gŵr hwnnw a amddifadwyd o ddefnydd ei goesau gan rew ym

mrwydr Mametz Wood yn Ffrainc. Cedwid y siop ym mharlwr y tŷ a byddai'n rhaid gwasgu heibio'r gdair olwyn yn y cyntedd i gyrraedd y cowntar. 'Maelfa Mametz' oedd ei enw uchelgeisiol ar y lle. Gwerthent fân nwyddau at ddefnydd cymdogion ond y dynfa i ni'r plant oedd y tân gwyllt tua G'langaea am rhyw geiniog neu ddwy.

I hybu bywoliaeth Robert Hughes byddai yn gohebu i'r Herald Cymraeg a'r Genedl. Gwelid ei gadair olwyn wrth y llwyfan mewn Cyngerdd neu Eisteddfod a Jennie, ei ferch, bob amser yn gwmni iddo.

Roedd siopau bach hefyd yn Madryn House (siop Ann Owen Plas), siop Meri Hughes yn Llain Gro, a siop Mrs Owen, Trosyffordd ar gwrr Bryniau Fawnog.

Yn olaf, fel y cofia hogiau Llanrug, oedd Siop Cefn Coed (Caffi Cefn Coed heddiw) a gedwid gan Percy Wilson ar Ffordd Crawiau. Siop fach yn y gegin oedd honno hefyd a chyflenwid angen mamau am ddillad rhesymol i'w plant. Trafaeliwr dillad oedd Percy, brodor o Gaergybi, yn gymeriad lliwgar a ffefryn gyda phêldroedwyr tîm Llanrug. Bu'n gefnogwr ffyddlon i'r tîm bob amser a gwnai sioe o'u lliwiau ar y maes chwarae. Bu ei gartref yn ddinas Noddfa i lawer glaslanc i fwrw ei feddwod ar nos Sadwrn, cyn wynebu'r teulu fore Sul.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr**



Beic 'di malu ac isio'i drwsio?
Mae Yncl Wil yn siŵr o blesio.
Am feiciau glân ail-law a phartiau,
Wel, yma cewch chi'r fargen orau.

**Cysylltwch â W. Jones
Waunfawr (01286) 650723**

**AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...**



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

**GLANHAWYR CARPEDI
a POLSTRI**

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

Keith Rees Hughes

1 Cae Newydd, Llanrug

(01286) 674416 neu (07880) 847161

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD GYMUNED. Tynnwyd Clwb Cant Ebrill a'r enillwyr oedd: 1. Eirlys Jones, 5 Bryn Hyfryd; 2. Manon Glyn, Llanrug. 3. Eluned Jones, Cae Corniog.

Cydymdeimlwyd yn ddwys â Leslie a Pat Larsen yn eu profedigaeth o golli brawd i Leslie o Gaernarfon.

Y mae aelodau'r pwyllgor yn brysur yn gwerthu Raffl er budd cynnal y Neuadd. Gofynnir yn garedig unwaith yn rhagor am eich cefnogaeth haelionus. Diolch o galon.

PROFEDIGAETH. Ein cydymdeimlad llwyraf â Pat a Leslie a'r cysylltiadau oll yn eu colled fawr.

Dymuna Eirian, Lars a Neil a Pat a Leslie Larsen ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad tuag atynt fel teulu yn eu profedigaeth. Diolch yn ogystal am y llu cardiau a'r rhoddion tuag at Ysbyty Eryri a Chymdeithas Alzheimer.

NOSON BINGO. Dymuna Pwyllgor Clwb Cinio Nadolig yr Henoed ddiolch i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd y Noson Bingo, nos Lun, Ebrill 10 yn y Neuadd Gymuned.

URDD ADRAN BENTREF. Llongyfarchiadau i Anest Eifion ac Anest Bryn ar ddod yn ail a thrydydd yng nghystadleuaeth Dawnsio Gwerin unigol yn Eisteddfod yr Sir. Pob lwc i Anest Eifion yn y Genedlaethol. Llongyfarchiadau hefyd i Lois Eifion ar ddod yn drydydd am ganu'r delyn.

Aeth 11 o aelodau i Wersyll Glanllyn dros ben-wythnos Ebrill 14-16 a chawsant dywydd teg ac amser i'w gofio. Diolch i Jên Jones a Carol Jones am fynd gyda hwy.

Y mae tymor gweithgareddau'r Adran wedi dod i ben erbyn hyn, ond bydd Mabolgampau'r Urdd i ddod eto yn fuan.

GYMNASTEG. Yn ogystal ag ymddiddori mewn Dawnsio Gwerin y mae Anest Bryn wedi profi'i hun yn arbennig o dda mewn gymnasteg hefyd. Enillodd Fedal Aur Grŵp A/B yn y Ganolfan Hamdden ac mae wedi cael

gwahoddiad i dreialon Clwb Eryri yn wythnosol ym Mhlas Silyn. Pob hwyl i ti Anest.

UN AR HUGAIN. Dymuniadau da i ti Huw Tegid ar achlysur dy ben-blwydd yn 21ain yn ddiweddar. Pob bendith i ti i'r dyfodol.

GO DDA! Da iawn ti Mari Deiniol ar ennill tystysgrif Gradd 1 gydag anrhydedd gyda'r Piano. Dal ati i ymarfer ar gyfer Gradd 2 rŵan.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Jean a Gwynfor, Tai Croesion ar ddod yn nain a thaid am yr eildro. Ganwyd mab bychan, Dion, i Sioned ac Endaf a brawd bach i Aled. Pob bendith i chi fel teulu. SIALENS DIFFEITHWCH ALASCA. Bydd Geraint Williams, Careb, 8 Bryn Eglwys yn herio mynyddoedd iâ ac afonydd rhewllyd Alasca er budd y Byddar a'r Dall. Y mae angen iddo gasglu swm o £2,500 er budd yr Elusen. Buasai'n hynod ddiolchgar o unrhyw gyfraniad tuag at yr achos teilwng hwn.

CYNGERDD SGORWYR UCHEL. Llongyferchir Lois Eifion ar gael ei dewis i berfformio gyda'r delyn a'r piano yn Neuadd J.P. Bangor yn dilyn marciau uchel iawn yn ei harholiadau cerddorol yn ddiweddar. Dalied ati.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Cynhaliwyd Cymanfa'r Methodistiaid yng Nghapel Seilo, Tregarth ar ddydd Sul, Ebrill 9 am 2 o'r gloch. Diolchir i'r plant a'r athrawon am wneud eu gwaith mor raenus fel arfer. Bu'n Gymanfa hwyliog a llwyddiannus dros ben.

Diolchir i Miss Elizabeth Jones am annog y plant i gasglu'n helaeth tuag at y Genhadaeth Dramor, a braf oedd clywed rhestr faith o enwau plant Bosra yn cael eu galw. Bydd tystysgrif a bathodyn i'w cyflwyno yn yr Ysgol Sul ar Fai 7. Llongyferchir Erin Eifion ar ei llywyddiaeth yn y Gymanfa. Roedd hi'n braf iawn gweld un o ffyddloniaid yr Ysgol Sul yn gwneud ei gwaith mor dda. Da iawn ti, Erin.

Bu Cymanfa'r Annibynwyr Dosbarth Cwm-y-glo yng Nghapel Jerusalem, Llanberis ar Sul, Ebrill 16 am 2 o'r gloch.

Bu'n Gymanfa fendithiol i bob oedran gyda chyfraniad amserol

am y Mileniwm gan yr Ysgolion Sul. Diolch blant, bobl ifanc ac athrawon am eich gwaith arbennig.

Cafwyd canu hwyliog o dan arweiniad Mair Huws, Llanrug a'r organyddes Hefina Jones. Roedd pawb wedi mwynhau ymuno yn y clapio a'r symudiadau. Diolchir i'r Parch John Pritchard am lywyddu'r Gymanfa.

Gwnaed casgliad sylweddol er budd addysg y ferch fach groenddu o Kenya, sef Katalu Singano.

TRIP YR YSGOLION SUL. Trefnir trip yr Ysgolion Sul ar yr ail Sadwrn

o Orffennaf eleni, sef Gorffennaf 8. Ceir manylion pellach yn y rhifyn nesaf.

ER COF. Dymuna Tony Elliott a'r hogiau ddiolch i bawb a gyfrannodd mor hael tuag at Ymchwil Cancr er cof am Mary. Casglwyd y swm anrhydeddus o £820. Diolch yn fawr.

ARHOLIADAU. Ydi, mae tymor y TASAU wrth y drws! Pob dymuniad da i chi blant bach Bl.2 a Bl.6 yr Ysgol Gynradd ac i chwithau Bl.9 yr Ysgol Uwchradd. Pob lwc hefyd i bawb ohonoch sy'n sefyll arholiadau TGAU, Lefel Uwch a'r Colegau.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

EISTEDDFOD YR URDD. Llongyfarchiadau i Alwen Hughes, Lleifior, sydd wedi arwain corau Cerdd Dant o dan 15 ac o dan 19 oed trwy'r Eisteddfod Sirol. Maent trwedd rŵan i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghonwy.

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned y Waunfawr yn y Ganolfan, Waunfawr ar 28 Mawrth. Roedd y Cyngorwyr Vera Roberts a Clive James yn bresennol. Mae'r Cyngor wedi cytuno, yn amodol ar ganiatad Cyngor Gwynedd, i godi placiau llechen gyda'r enwau ar Bont Glangwna, Pont Glan yr Afon Bach a Phont yr Efail Bach. Ar yr olaf bydd geiriau ynglŷn â defnydd o'r grisiau i nôl dŵr golchi dillad. Mae Pwyllgor Cynllunio Ardal Arfon wedi caniatáu'r datblygiad mwr ym Mharc Gwyliau Glangwna, codi'r tŷ oedd yn Y Bwthyn a chyntedd allanol a mynedfa i Rosygwalia. Penderfynodd y Cyngor gyfrannu'n ariannol i Eco'r Wyddfa (£75), Eisteddfod yr Urdd, Conwy (£50), Eisteddfod Genedlaethol Llanelli (£50) ac Ysgol Feithrin y Bontnewydd (£50). Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i godi dau arwydd 'tractorau'n troi' ger y fynedfa i Lanyrafon.

CYWIRDEB. Diolch i'r darlennydd o'r 'Caernarfon Herald' sydd wedi sylweddoli'r camgymeriad ymhlith enwau pontydd yr ardal. Faint ohonoch sy'n cofio pobl yn ymgasglu a chyfarfod ar Bont Glangwna ers talwm? Gan mai Pont Pwll y Bar yw'r enw ar y Mapiau Ordnans, bydd rhaid

darbwyllo'r awdurdodau mapio i gywiro'r sefyllfa.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Ebrill 30: 10.00 Pregeth; Mai 7: 11.00 Ysgol Sul; Mai 14: 11.00 Ysgol Sul, 2.00 Mr Dafydd Iwan; Mai 21: 11.00 Ysgol Sul; Mai 28: 10.00 Parch Gareth Maelor, 11.00 Ysgol Sul. PWYLLGOR CAE CHWARAE. Enillwyr y Tynfa Fisol ar gyfer mis Ebrill oedd 1. (91) £40: Heather Thomas, 4 Bryn y Gof; 2. (75) £25: Mai Jones, Crud yr Awel; 3. (52) £15: Collette Donaldson, Homes; 4. (46) £5: Doris Mulhenfield, 9 Tai Glangwna.

Croeso mawr i'r aelodau newydd. TENANT NEWYDD. Eifion Hughes, Tyddyn Cae yw tenant newydd Stâd Glynllifon ar diroedd Cefn y Gof. Pob lwc iddo yn ei fenter newydd.

CROESO ADRE. Ar ôl seibiant yn yr ysbyty, mae'n braf gwybod fod Mrs Margaret Lovell, 2 Erw Wen adre unwaith eto.

WYAU PASG. Diolch i gefnogaeth parhaol aelodau Tynfa Fisol Cymdeithas y Cae Chwarae roedd y pwyllgor yn medru prynu Wyau Pasg ar gyfer 35 o blant yn y pentref a'r cylch. Cynhaliwyd Helfa Wyau Pasg ar fore Sul y Pasg er mwyn eu dosbarthu mewn ffordd draddodiadol.

SYR WILLIAM PREECE. A oes gan un o ddarlennwyr yr Eco wybodaeth ynglŷn â hanes teulu arloesydd y telegraff di-wifren a fu farw ym Mhenrhos? Cysylltwch, pe bai gwybodaeth gennych, â'ch gohebydd lleol.



IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd DEINIOLEN

(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.



ORIEL CWM

Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio Llundiau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

EMYR JONES

PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI



Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
Caernarfon 673513

Ffôn Symudol: 07774 496616

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mawrth: £40: Mrs Lola Jones, Bron Eifion; £25: Mrs Dorothy Jones, Tan y Coed; £10: Mr E. Pierce, Bryngwyn. CYDYMDEIMLO. Yn ystod y mis bu farw Mrs Beech a fu'n byw yn Nhy'n y Wern am flynyddoedd. Cydymdeimlwn â'r meibion, Trevor, Bronallt a David, Rose Mount a'i dwy ferch yn eu profedigaeth o golli mam.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Catherine Williams, Stad Tŷ Hen, Mrs Laura Pierce, Ty'n Twll a Mr Richard Owen, Stad Bro Waun yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Miss J. Ann Owen.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr John Ellis, Ty'n Llidiart yn ei brofedigaeth o golli ei dad.

DIOLCH. Dymuna John a'r teulu, Ty'n Llidiart, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl, Mr T.H. Ellis, Plas, Llithfaen.

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn adferiad iechyd i Mrs M Owen, Bryn Gwylan, Mrs Helen Jones, Stad Tref Eilian, Mr Phil Lowe, Ger y Ffynnon a Mr David Lewis, Tegfan sydd wedi gorfod treulio cyfnod yn yr ysbty.

Da deall bod Mrs Enid Williams, Heli yn gwella wedi iddi gael triniaeth i'w llygaid yn ddiweddar. DAMWAIN. Dymunwn wellhad i Ian Williams, Stad Tŷ Hen a David Henderson, Siop y Pentref wedi iddynt fod mewn damwain car.

DATHLU PEN-BLWYDD PRIODAS. Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Gwilym Williams, Fferm Bodhyfryd ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

DYWEDDIO. Dymunwn yn dda i Elena, 17 Stâd Tŷ Hen ar ei dyweddiad ac Arwyn o Lanrwst. DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Osian Elfryn, Coed Gwydryn ar gyrraedd ei ddeunaw oed.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Iwan a Shoned, Tŷ Awelog ar enedigaeth merch fach, Mared, chwaer fach i Elin, wyres fach i mi a gor-wyres i mam, Mrs M Jones. LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Elfryn Pierce, Bryn Gwyn ar ddod yn daid a nain. Ganwyd mab bychan i Dylan a Marie, brawd bach i Twm.

AELWYD NEWYDD. Croeso i David Coles a'i deulu yn ôl i fyw i'r Waunfawr., Maent wedi ymgartrefu yn Gwynant.

YR URDD. Llongyfarchiadau i'r parti Cân Actol ar ddod i'r brig yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Pob lwc iddynt yn y Genedlaethol yn mis Mai.

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod llawn o'r Cyngor ar 28 Mawrth, 2000.

Cafwyd cyflwyniad gan Richard Bright (Rheolwr 'Tasglu Amgylcheddol Gwynedd'). Cafodd y cwmni yma ei sefydlu drwy grant loteri cenedlaethol gyda'r bwriad o gynnig gwasanaeth cynnal a chadw eiddo a chreu gwaith. Mae'r Tasglu yn cynnig

gwasanaeth torri coed/gwair, walio, paentio, mân waith, clirio tai, ayyb. Nid yw unrhyw waith yn cael ei ystyried yn rhy fach i'w ymgymryd, ac mae'r gwasanaeth ar gael i bawb (y cyhoedd yn ogystal â busnesau, cyngorau ayyb) Bydd y Tasglu yn falch o gael rhoi pris ar unrhyw waith a dylid cysylltu â'i swyddfa yn Noddfa, Caernarfon.

Gan nad oes tystiolaeth i ddangos yn bendant pwy yw perchennog y Gofgolofn Ryfel yn Waunfawr, penderfynwyd y byddai'r Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb am yr adeilad heb unrhyw ragfarn fod y Gofgolofn yn eiddo iddo.

Cafwyd adroddiad fod y giatiau ar lwybr rhif 9 bellach mewn cyflwr derbynol.

Bydd y Cyngor yn ystyried y gwaith sydd angen ei wneud ar lwybr rhif 12, i'w gael i safon derbynol yn ystod y cyfarfod nesaf.

Cafwyd adroddiad gan Syrffewr Ardal, Adran Prifffyrdd Cyngor Gwynedd yn datgan nad oedd modd rhoi llinellau melyn y tu allan i'r siop sgolodion hyd at Manchester House. Hyn oherwydd bod yr Heddlu wedi barnu nad yw ceir sydd yn parcio yn y lleoliad yma yn achosi perygl drwy amharu ar welediad ceir sy'n ymuno â'r ffordd fawr o'r gyffordd gyfagos. Penderfynwyd datgan anffodlonrwydd gyda'r ymateb yma.

Ynglŷn â mast telathrebu Groeslon, cafwyd cadarnhad fod yr hen fast wedi cael ei dynnu i lawr, a hefyd cafwyd adroddiad fod y cwmni sydd yn berchen ar y mast wedi rhoi sicrhad y bydd diogelwch ynglŷn â'r safle yn gwella (drwy wneud yn siŵr fod y

giât wedi ei chloi bob amser). Bydd y Cyngor nawr yn disgwyl am adroddiad o gyfarfod sydd i'w gynnal ynglŷn â'r mater cyn rhoi ystyriaeth pellach i'r broblem.

Bydd cwmni G.L. Jones, Bethesda yn gwneud arolwg risg ac adroddiad blynyddol ar y cyfarpar chwarae yn Gerddi Bach. Hefyd bydd y Cyngor yn trefnu ymchwiliad wythnosol o hyn ymlaen.

Bydd y Cyngor yn ysgrifennu at berchennog Adfa, ynglŷn â cherrig sydd yn syrthio o'r wal i'r llwybr sydd yn arwain at Cynant Lodge.

Mae'r Cyngor wedi gwneud cyfraniad tuag at brosiect sydd yn amcanu i roi cyfle i bob disgybl blwyddyn chwech yng Ngwynedd ymweld ag Ynys Enlli. Bydd hyn yn galluogi'r 20 disgybl cymwys yn Ysgol Waunfawr gymryd mantais o'r cyfle.

Adroddwyd fod ceisiadau cynllunio fel a ganlyn wedi cael eu caniatáu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol: Adeiladu Stablau Newydd yn Snowdonia Riding Stables; Adeiladu tŷ (cais diwygiedig i'r hyn a ganiatawyd o dan gais rhif C97A/0664/26/LL) yn Heathfield. Adroddwyd hefyd fod yr ymatebion gwahanol a gafwyd gan aelodau'r Cyngor ynglŷn â chais cynllunio i adeiladu tŷ a modurdy yn The Haven wedi cael eu gyrru at yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Pasiwyd cynnig na ddylai'r Cyngor ddatgan ei gefnogaeth i gais am gael symud y blwch postio sydd ar gornel Pant Waen a'r ffordd fawr at Siop y Pentref, Bryn Gwynedd; ond fod y Cyngor o blaid, pe bai modd, dwyn perswâd ar y Post Brenhinol i osod blwch postio newydd yn y safle yma.

Dyfarnwyd cyfraniadau ariannol i 7 o fudiadau a chymdeithasau lleol ac adroddwyd fod Clwb Chwaraeon Waunfawr wedi talu yn ôl £500 ychwanegol o'i fenthyciad di-log.

Bydd cynrychiolwyr o'r Cyngor yn mynychu cyfarfod o Gynghorau

Cymuned Lleol i drafod cysoni ffioedd a rheolau mynwentydd plwyf.

Mae manylion am waith gwirfoddol y gellir ei wneud i Ganolfannau Cyngori Gwynedd wedi cael ei roi ar yr hysbysfwrdd yn y pentref.

Bydd Gwasanaeth Adfywio Bro Gwyrfaei (Adran Cynllunio a Datblygu Economaidd Cyngor Gwynedd) yn cynnal cyfarfod agored i drafod casgliadau yr Arolwg Bro a wnaed yn ddiweddar. Bydd pob tŷ yn y pentref yn derbyn copi o'r casgliadau. Cadeirydd y Cyngor Cymuned fydd yn cadeirio'r cyfarfod yma.

Bydd y Cyngor yn derbyn cynnig darpar Ymgeisydd San Steffan, Etholaeth Caernarfon - Plaid Cymru: Hywel Williams i fod yn bresennol mewn cyfarfod i drafod materion lleol.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau gan gynnwys 'Datblygiad Cymunedol a Dargedir i'r Celfyddydau', Cyngor Celfyddydau Cymru; 'Cyfeiriad Strategol a Fframwaith Datblygu Ysbytai Cymuned', Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru; 'Tuag at Amcan Un', Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Adroddiad Blynyddol 1998-99, Coleg Meirion Dwyfor.

Trafodwyd y broblem o chwarae pêl-droed ar strydoedd y pentref, a chafwyd cydnabyddiaeth fod y broblem yn un sydd yn digwydd drwy'r pentref ac nid ar ambell i stad o dai. MAE'R CYNGOR YN ANNOG YN GRYF FOD POB UN SYDD YN DYMUNO CHWARAE GEMAU YN GWNEUD DEFNYDD O'R CAEAU PWRPASOL SYDD WEDI CAEL EU DARPARU YN Y PENTREF: SEF: GERDDI BACH, Y CAE SYDD TU ÔL I'R GANOLFAN, A'R CAE POB TYWYDD. Hyn yn bennaf er mwyn diogelwch y rhai sydd yn chwarae ond hefyd er

parhad ar dudalen 22



Anfonwyd y llun yma o brysurdeb o flaen garej Whiteways yn y Waunfawr gan Mr Aled Williams, Maes Teg, Waunfawr. Mae'r llun yn dyddio rhwng y flwyddyn 1932 a 1934.

'Crazy Kathmandu'!

Dyma ail ran dyddiadur Bethan Williams o Fethel a deithiodd i Nepal i ddysgu mewn ysgol arbennig yno.

03/09/99

O'r diwedd! Mi gymerodd hi 12 awr i gyrraedd Delhi yn India ac yna roedd yn rhaid i ni aros yn y maes awyr am 12 awr cyn hedfan am 3 awr i Nepal!

Angofia i fyth be' welish i wrth ddod allan o'r maes awyr 'na! Fy nelwedd cynta' o Nepal — cannoedd ar gannoedd o bobl yn dringo dros ei gilydd i gael dod i'r blaen. Rhai'n gweiddi, 'Taxi!' Eraill yn eisio'ch hudo i'w gwesty a thua chwedeg y cant ohonyn nhw yno i wyllo! Ishio gweld y gwynebau gwynion, diniwed.

Roedd y daith ar y bws wedyn yn anhygoel. Roedd fy ngheg i'n agored drwy'r daith! Roedd y ceir yn osgoi'r gwartheg yng nghanol y lôn, yn canu corn ar y gyrrwyr o'u blaen ac yn osgoi'r bobl a oedd yn croesi ar y 'rownd-abowt'. Roedd yna bobl yn eistedd yn hamddenol ar ochr y ffordd yn yfed te, dynion yn chwarae 'tiddly winks' ar ochr y stryd a phlant yn hedfan eu barcud 'home-made'.

Yna, roedd y tlodi. Plant, rhieni, henoed ac anabl. Cardotyn yn gwthio cardotyn arall ar fwrdd sglefrio, mamau yn gwthio eu plant at dwristiaid. Defnyddio'u hanabledd i ddenu twristiaid ar gyfer cael mwy o gydymdeimlad na'r plentyn iach — plentyn tlawd a di-gartref, ond yn gorfforol iach. O'r diwrnod cynta' dwi wedi gorfod anwybyddu hyn. Peidio rhoi arian. Anwybyddu'r 'Money, miss,' sy'n dod gan y gŵr sydd heb goesau na dwylo ar y llawr. Anwybyddu'r plant sy'n tynnu ar fy nillad 'adidas' yn ymbil am geiniog neu ddwy i fwydo'u teulu. Mae hi'n llawer haws dweud na gwneud, yn enwedig pan oeddwn i'n aros mewn gwesty yng nghanol y brif ddinas, Kathmandu.

Dwi bellach wedi cael cartref am yr wythnos mewn tŷ tri llawr. Mi fydd Sarah a fi yn aros fan hyn hys nes y byddwn yn darfod

y cwrs rhagarweiniol. Mae'n rhaid i ni ddal y bws lleol bob bore i fynd i'r ganolfan lle y byddwn yn dysgu mymryn o'r iaith (Nepali) am weddill yr wythnos.

Ein hail ddiwrnod ni oedd heddiw ac mi aethom ni ar goll! Ar ôl hanner awr o fod fel tun sardins (ond fod y tun yma yn rhoi blaenoriaeth i'r henoed). Os oedd yna sedd wag ar y bws roedd rhaid i mi wneud yn saff nad oedd yna neb fwy anghenus na fi angen y sedd. Wrth gwrs, mi roedd yna bob tro — hen wraig a sach o lysiau ar ei chefn, mam a phlentyn wedi ei glymu'n sownd iddi neu hen ŵr a'i gefn wedi plygu wedi'r holl flynyddoedd caled o lafur.

Beth bynnag, wedi i ni neidio oddi ar y bws edrychodd y ddwy ohonom ni ar y stryd ddieithr ac yna ar ein gilydd. Doedd yr un ohonom ni'n gallu ynganu enw'r ganolfan felly roedd gofyn am gymorth yn warthus.

'Ecsgwiws mi, ym ... Jawlakel?' Chwerthin mawr gan y dynion taci. Chwarae teg, mynd i'r ganolfan i ddysgu'r iaith oedden ni!

'Ymm ... Jawlhakhel?' Erbyn hyn roedd y ddau ŵr wedi troi'n ddwsin o bobl o'n cwmplas ni'n chwerthin dros y lle! Beth allen ni ei wneud, ond chwerthin hefo nhw.

Cawsom hyd i'r lle yn y diwedd ond dwi'n dal yn ca' trafferth! Ma' 'na gymaint i'w ddysgu a does yna'r un ohona ni yn teimlo fel ista i lawr mewn 'stafell chwilboeth yn dysgu iaith. Ond dyna ni, dwi'n dal i fwynhau!

09/09/99, 6.30 y bore

Ers wythnos rŵan, dwi'n gorfod codi bob bora am chwech i fynd i addoli dyn o'r enw 'Sai Baba'! Mae'r teulu ydw i'n aros hefo nhw yn eithaf cyfoethog dwi'n meddwl. Mae yna ystafell addoli yn y tŷ a mae'r cymdogion yn dod drosodd am awr bob bore. Mae'n rhaid i mi eistedd ar y llawr yn ail-adrodd beth bynnag mae'r 'unawdwr' yn ei ganu. Mae o wedi bod yn ddiddorol iawn ond os wela i wyneb y 'Sai

Baba' 'na eto am chwech yn y bora mi sgrechia i! Dwi'n deall ei fod o'n ddewisiedig fel Duw ar y ddaear ond oedd rhaid iddo fod mor hyll!

Dwi wedi cael amser gwych hefo'r teulu, yn gwisgo i fyny yn eu gwisg traddodiadol nhw ac yn canu caneuon Nepali. Neithiwr mi rois i flas ar ddawnsio gwerin iddyn nhw a chaneuon pop y gorllewin. Dwi wir yn mwynhau

yma. Yn cael gweld petha' newydd bob dydd ac yn gwneud ffrindiau arbennig.


Mae pawb yn gwahanu fory i'w hysgolion. Mi fydd Sarah a fi'n mynd i Fikkal yn y dwyrain pell. Wela ni'r un wyneb gwyn am fis.

Fi yn athrawes, alla i'm credu'r peth! Mae'n rhaid i mi fod yn gyfrifol, yn aeddfed ac yn gall! Na, dwi'm yn meddwl!

DRAENOG

Cloi ei hunan allan o dŷ mae rhywun fel arfer, ond nid dyna fu hanes y dyn carpedi enwog o'r Waunfawr. Fel

arall yn hollol. Cloi ei hun i mewn yn y tŷ, a diolch i'r Samaritan a oedd yn digwydd pasio a'i cafodd allan o drybini, gan ddweud 'GER, AINT you lucky I was passing!'



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH


Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG (01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches

★ Byrddau Ffasia

★ Cladio

★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Royal Victoria Hotel



LLANBERIS



Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau


Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

x

Ffôn: (01286) 870253

CHWARAEON

Gwireddu Breuddwyd



Dyna'n wir digwyddodd i un o drigolion Nant Peris yn ddiweddar. Cafodd Elgan Metcalfe arwain tîm Nant Conwy allan ar faes Stadiwm y Mileniwm. Dyma ei adroddiad am y diwrnod bythgofiadwy.

Anrhydedd fawr i mi fel chwaraewr a chapten clwb rygbi Nant Conwy oedd cael mynd i Gaerdydd i Stadiwm y Mileniwm i chwarae yn rownd derfynol Cwpan Bragwyr Cymru.

Er mai colli a wnaethom dydd Sadwrn, roedd y profiad o gael camu a chwarae ar y cae rhyngwladol yma yn un bythgofiadwy a hefyd dwi'n siŵr i weddill y tîm.

Da oedd gweld fod cymaint o

gefnogwyr o Ogledd Cymru wedi gwneud y daith hir i lawr i Gaerdydd i'n cefnogi. Roeddynt yn hwb i'r hogia ar y cae.

O ran y clwb buddugol, sef Clwb y Tyllgoed o Gaerdydd, fe ddangoswyd eu profiad yn yr ail hanner yn manteisio ar gamgymeriadau Nant Conwy. Er ei bod yn ornest dyn iawn yn yr hanner cyntaf dangosodd y Tyllgoed eu bod yn haeddu bod yn bencampwyr.

Er hyn nid wyf yn teimlo yn rhy dorcalonnus oherwydd braint yw gwybod fod rhan fach o rygbi Gogledd Cymru wedi bod ar Stadiwm y Mileniwm.

E.M.

Mor Agos i Lwyddo

Unwaith eto y mis yma, rhaid diolch i'n gohebwyr ifanc. Isod, gwelir adroddiad Geraint Iwan am gêm bêl-droed gyd-derfynol Cwpan Cymru a chwaraewyd yng Nghwmbrian. Yna cawn groesawu Ifan Dafydd, disgybl blwyddyn 7, a'i adroddiad o gystadleuaeth golff.

'Ar ôl ennill i ffwrdd yn Aberdaugleddau, roedd taith hir arall yn wynebu tîm dan 14 Brynrefail yn rownd gyn-derfynol Cwpan Cymru. Ysgol Fairwater o Gwmbrian oedd ein gwrthwynebwyr. Roedd ysbryd da cyn y gêm, a phawb wedi anghofio'r daith hir. Cafodd Brynrefail ddechreuad campus, gyda Ceirion Owen yn rhwydo wedi dau funud. Brwydrodd y tîm cartref yn ôl, ond er amddiffyn yn dda, roedd y sgôr yn gyfartal 1-1 ar yr hanner.

Brynrefail oedd y tîm gorau yn yr ail hanner ond yn anffodus methwyd sawl cyfle. Ni ddaeth gôl, ac felly ymlaen i amser ychwanegol. Er pwyso, ni ddeuai'r ail gôl i Brynrefail. Yna, sgoriodd Fairwater o gic cornel. Doedd dim byd amdani felly ond ymosod. Sawl cyfle eto i unioni ond gyda

phawb i fyny'r cae, torrodd Fairwater yn glir i rwydo, ac ennill o 3-1.

Roedd hyn yn siom i'r tîm ar ôl chwrae mor dda ond eto, roeddem yn hynod o falch fod ysgol gymharol fechan wedi mynd mor bell yn y cwpan. Diolch i bawb am eu cefnogaeth dros y tymor, yn enwedig ar y teithiau hir.

Geraint Iwan

'Ar ddiwedd y mis aeth tîm o dri i gystadlu ar faes golff Caernarfon. Y gystadleuaeth oedd ardal Eryri o Gwpan y British Heart Foundation. Y tîm dewisedig oedd lanto Fôn Jones, Nicky Williams ac Owain Sion Williams. Yn anffodus, roedd Owain wedi cael anaf yn chwarae rygbi, felly dewiswyd fi fel eilydd. Roedd pedair awr o chwarae caled yn ein wynebu, gyda'r tri tîm gorau yn mynd ymlaen i Bancampwriaeth Cymru yn Llanfair ym Muallt.

Yn ôl y rheolau, y ddau sgôr uchaf o'r tri oedd yn cyfrif. Cefais i sgôr o 43, lanto 36 a Nicky 31. O gofio fod cymysgedd o brofiad yn y timau, roedd rhain yn sgoriau da a roddodd i ni'r ail safle, bum pwynt tu ôl i dîm Syr Hugh Owen.

Ifan Dafydd

Pigion Wrth Basio

Er mai tymor gweddol digalon fu draw ar y Bwthyn yn Neiniolen, mae un o'r cyn-chwaraewyr wedi cyrraedd y 'brig'. Yn dilyn y gyflafan a'r chwalfa ar Ffordd Farrar, cymerodd Gavin Allen reolaeth o'r tîm ar gyfer gêm gyn-derfynol Cwpan Cymru. Sgoriodd gôl gyntaf o bedair Bangor, ac arwain y tîm i gêm derfynol yn erbyn Cwmbrian. O ennill, buasai Bangor yn Ewrop y tymor nesaf.

* * *

A'r eira ar y copaon, anodd credu fod y tymor criced ar gychwyn. Mae nifer o ieuencid lleol wedi bod yn y rhwydi dros y gaeaf i baratoi ar gyfer Cynghreiriau Eryri i rai -11, -13 a -15. Hefyd mae llefydd i'w hennill yng ngharfanau Eryri ar gyfer y cystadlaethau cenedlaethol. Un sydd eisoes wedi llwyddo yw Tom Evison o Gaeathro, sydd wedi ei ddewis i garfan -16 Cymru. Wedi ei lwyddiant ysgubol y llynedd, edrychwn ymlaen at ddatblygiad y batiwr a'r troellwr dawnus hwn.

* * *

Unwaith eto eleni daeth dau enw i'r brig yng Nghystadleuaeth Goreuon Chwaraeon Gwynedd. Am yr ail dro yn olynol cipiwyd Tlws Bachgen y Flwyddyn gan y nofiwr hynaws o Lanrug, Eifion Williams. I Lanrug hefyd am yr ail dro yn olynol yr aeth y wobwr arbennig i'r Campwr ag anabledd. Enillydd y wobwr arbennig hon oedd Gareth Roberts.

Y Ddau Williams — dal i fynd!

Unwaith eto llwyddodd Gwilym Williams o Fethel i gwblhau Marathon Llundain. Yn 53 oed erbyn hyn, llwyddodd i guro ei amser gorau, trwy orffen y 26 milltir mewn 3 awr 37 munud. Trwy ymdrechion Gwilym, bydd apêl leol Steffan Price Jones yn elwa. Wn i ddim sawl gôl sgoriodd Gwil yn ei yrfa hir ym mhêl-droed lleol, ond y mae asgellwr arall o Fethel yn nesau at garreg filltir hynod. I dîm Deiniolen y bu Dewi Williams, Cefn Gwyn yn chwarae am sawl tymor erbyn hyn. Gyda phum gêm ar ôl y tymor hwn — ei olaf, efallai — mae Dewi o fewn dwy gôl i gyrraedd 200 i'w glwb. Tipyn o gamp i un sy' wedi bod mor dyn i'r llinell am dymhorau. Gyda llaw, oes record yn rhywle o sawl gôl sgoriodd Gwil o'r asgell i Llanbêr?

Tlws yr Eco 2000

Rhaghysbyseb i roi rhybudd i'r sawl sydd yn paratoi'r timau. Gobeithio y ceir cynrychiolaeth o bob pentref eleni i gynnal y noson hynod lwyddiannus hon. Yn ystod mis Mehefin y cynhelir y cystadleuthau — pêl-droed a phêl-rwyd i blant oed cynradd. Bydd y manylion a'r ffurflenni ymaelodi yn rhifyn nesaf yr Eco.

CWRS GOLFF TYDDYN MAWR, LLANRUG

Ffôn 674919 (Meirion Hughes)



- Cwrs 'Talu am Balu' 9 twll - ar agor 7 diwrnod yr wythnos
- Golff di-lol — di-ffys. Offer golff i gyd ar gael i'w logi
- Croeso i olffwyr o bob oed
- Cyfle rhagorol i ddechrau dysgu'r gêm

TELERAU 2000

- Un rownd 9 twll £3 ● Celfi i'w hurio £1
- Telerau perthnasol i'r ifanc
- Rhaid i blant dan 14 oed fod yng ngofal oedolyn

ANRHEG DELFRYDOL!

TOCYN TYMOR BLYNYDDOL NAWR AR GAEL

£100 I BARHAU AM FLWYDDYN GRON

Ffurflen gais ynghyd â manylion pellach i'w cael oddi wrth Meirion

Cystadleuaeth Flynyddol Cymdeithas Cyn-ddisgyblion / Athrawon Ysgol Brynrefail

yng Nghlwb Golff Caernarfon

1 o'r gloch dydd Sul, Mehefin 25, 2000

Am fwy o fanylion cysylltwch ag Awen Parry (01286) 870803 neu Hugh Roberts (01286) 676063.